

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mawrth 2016


Rhifyn 464

50c

O FETHIANT I FUDDUGOLIAETH



Y cast cymundeol



Llion Williams, yn rôl Edward Ifans

Diolch i Theatr Genedlaethol Cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r lluniau hyn.

Ar ôl hir aros, ar 17eg Chwefror yn Theatr Bryn Terfel, Pontio, agorodd cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru o Chwalfa, addasiad Gareth Miles o nofel T Rowland Hughes yn seiliedig ar brofiadau Dyffryn Ogwen yng nghyfnod Streic Fawr y Penrhyn. Bu sawl cyfeiriad at y cynhyrchiad hwn ar dudalennau'r Llais dros y blynyddoedd ddiwethaf, gan ddechrau gyda cyffro haf 2014 wrth i'r Theatr Genedlaethol gynnal clyweliadau am drigolion o'r Dyffryn i ymuno â'r cynhyrchiad a rhannu llwyfan gydag actorion proffesiynol, ac yna'r siom pan ohiriwyd y cynhyrchiad oherwydd yr oedi cyn agor Pontio. Roedd nifer yn pryderu ar y pryd fod y cyfle wedi ei golli am byth, ac na welid mo'r cynhyrchiad ar lwyfan Theatr Bryn Terfel o gwbl.

Teg dweud fod y rhai a fu'n ddigon ffodus i gael tocynnau i weld y perfformiad wedi anghofio rhwystredigaeth deunaw mis yn ôl wrth iddynt gael eu gwfreiddio gan berfformiadau'r holl gast, yn broffesiynol ac o'r gymuned. Bydd yr hyn a welwyd ac a glywyd yn aros am gyfnod maith yng nghof pawb oedd yn y theatr. Braf hefyd oedd gweld fod gwerthfawrogiad o'r cynhyrchiad yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r Dyffryn a Bangor. Gwelwyd adolygiad hyd yn oed ym mhapur newydd y Guardian, a ddyfarnodd bedair seren allan o bump. Dywedodd yr adolygydd mai cymaint oedd grym y ddrama nes fod cynhyrchiad Arwel Gruffydd yn gwbl ddealladwy hyd yn oed i'r rhai nad ydynt yn deall y Gymraeg.

YNNI OGWEN GORYMDAITH GŴYL DDEWI

Dydd Sul, 28ain Chwefror cynhaliwyd gorymdaith Gŵyl Ddewi Bethesda, gan gerdded ar hyn y Lôn Las cyn diwedd mewn Cyngerdd yn Neuadd Ogwen. Dyma lun gan Emyr Roberts o gefnogwyr Cymdeithas budd cymunedol Ynni Ogwen ar yr orymdaith. Y diwrnod blaenorol, cynhaliwyd digwyddiad yn Neuadd Ogwen i lansio cynllun ynni cymunedol arloesol yn Nyffryn Ogwen. Gweledigaeth y cwmni cymunedol yw defnyddio grym llif Afon Ogwen i gynhyrchu trydan a defnyddio'r elw i'w ail-fuddsoddi yn y gymuned. Mae'r cwmni yn estyn gwahoddiad i fuddsoddi yn y fenter - ceir mwy o fanylion ar dudalen 4.



Dilynwch ni ar Trydar: @Llais_Ogwan

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts

☎ 600965
✉ hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297
✉ cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts

☎ 600490
✉ l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn

☎ 07940 905181
✉ dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen

☎ 601592
✉ Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees

☎ 600427
✉ sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853
✉ nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440
✉ dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444
✉ trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167
✉ waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd

Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd LL57 3DT
☎ 602440

✉ dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
✉ nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
✉ garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd

Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ
☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN
☎ 600184
✉ post@llaisogwan.com



Ariennir yn Rhannol gan
Llywodraeth Cymru



DYDDIADUR Y DYFFRYN

MAWRTH 2016

- 19** Bore Coffi Cronfa Goffa Tracey Smith. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
19 Al Lewis a Siôn Richards yn Neuadd Ogwen am 7.30.
31 Merched y Wawr Bethesda. Y Gwelch gan Arwyn Evans. Cefnfaes am 7.00.

EBRILL 2016

- 04** Merched y Wawr Tregarth. Bet Jones. Festri Shiloh am 7.00.
07 Sefydliad y Merched Carneddi. Delyth Jeffreys. Cefnfaes am 7.00
09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.
09 Bore Coffi Plaid Lafur. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
09 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00.
14 Cymdeithas Capel Jerusalem. Bethan Wyn Jones. Y festri am 7.00.
14 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
16 Bore Coffi Cymdeithas Capel Jerusalem. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
20 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 5.00 – 8.00yh.
23 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
27 Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon. Capel Bethlehem Talybont am 7.00.
30 Bore Coffi Eglwys Sant Cedol Pentir. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

MAI 2016

- 05** Etholiad Llywodraeth Cymru

Mae

Llais Ogwan

ar werth yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Spar, Bethesda,

Londis, Bethesda

Siop Ogwen, Bethesda

Cig Ogwen, Bethesda

Tesco Express, Bethesda

Siop y Post, Rachub

GOLYGYDD Y MIS

Golygwyd y mis hwn gan

Dewi A Morgan

Golygydd mis Ebrill fydd **Dewi Llywelyn Siôn**, 35 – 37 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SE.
Ffôn: 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **Dydd Mercher, 30 Mawrth** os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 14 Ebrill**, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

COFIWCH GEFNOGI EIN HYSBYSEBWYR.

ARCHEBU LLAIS OGWAN DRWY'R POST



Gwledydd Prydain £20
Ewrop £30
Gweddill y Byd £40

Owen G. Jones,
1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN

✉ post@llaisogwan.com

☎ 01248 600184

CLWB CYFEILLION LLAIS OGWAN

GWOBRAU CHWEFROR

- £30.00** (118) Gwenno Evans, Ystad Coetmor, Bethesda.
£20.00 (44) Donna Hughes, Bro Rhiwen, Rhiwlas.
£10.00 (2) Joe Evans, 10 Glan Ffrydlas, Bethesda.
£5.00 (119) Helen Wyn Williams, Llwyn Bleddyn, Rachub.

Nid yw pwyllgor *Llais Ogwan* na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

LLAIS OGWAN AR CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor:

☎ 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

LLAIS OGWAN

**Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan**
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan
Smala, Clynnogfawr
www.smala.net
☎ 01286 660017
www.smala.net
post@smala.net

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor, Penygroes,
Gwynedd LL54 6DB
☎ 01286 881911

Rhoddion i'r Llais

£20.00 Mrs. Margaret Owen, Rachub, er cof am Mrs. Blodwen Gibbs, a fuasai'n 100 mlwydd oed ar 3 Mawrth.
£20.00 Leonard Jones, 2 Bron Bethel, Rachub.
£20.00 Victor Roberts, 6 Rhos Cilfodan, a'r teulu, er cof am Eirlys Roberts.
£19.50 Deri a Megan Tomos, Llanllechid.
£4.50 Fred Griffiths, Garneddwen, Bethesda.
£4.50 Andrew a Helen, Pantglas, Bethesda.

Diolch yn fawr.

DIOLCH

Yn dilyn cyfnod o foderneiddio yn y wasg a buddsoddiad mewn technoleg fodern, ni fydd R Alwyn Jones, Gwasg Ffranccon yn argraffu *Llais Ogwan* o hyn ymlaen. Hoffai Pwyllgor Gwaith a Phanel Golygyddol Llais Ogwan ddiolch o galon i Alwyn am ei wasanaeth proffesiynol a chefnogol dros yr holl flynyddoedd, a dymunwn yn dda iddo am y dyfodol.

LLYTHYR

Zakopane
7 Rhos y Coed
Bethesda

Annwyl Olygydd
Hoffwn trwy eich colofn llongyfarch pawb
a oedd yng nghlwm a chynhyrchiad
'Chwalfa' a fu ar lwyfan Bryn Terfel, Pontio
ym Mangor mis diwethaf. Roedd yn werth
ei gweld, yr actorion proffesiynol ar eu
gorau, a hefyd aelodau o'r gymuned leol a
oedd yn cymryd rhan. 'Roedd yn amlwg fod
yr oriau maith o ymarfer ganddynt oll yn
cael ei adlewyrchu ar y noson agoriadol. Ac
yn dod â'r caledi a fu yng nghyfmod y streic
yn fyw iawn i ni'r gynulleidfa. Braf oedd
cael ar ddallt fod pob noson o'r
cynhyrchiad wedi ei werthu allan. A siom
fawr i rai ohonoch a fethodd a chael tocyn i
ymweld â'r perfformiadau. Bydd yn aros yn
fy ngof am yn hir iawn.

Andre Lomozik

LLYTHYR

Llais yr Andes,
Llandybïe,
Rhydaman
SA18 2TH

Annwyl Olygydd,
Braf ydoedd clywed am agor Canolfan
Gymraeg yng Nghaerdydd. O'r diwedd!
Dylai hon wneud byd o wahaniaeth i
Gymry'r ddinas, boed yn siaradwyr neu yn
ddysgwyr. Adeilad amlbwyrpas ar gyfer pobl
o bob oed.

Fel yr athrawes gyntaf a fu'n gweithio yn yr Andes o dan y Cynllun Dysgu ga i ddweud mor falch y mae Cymry Esquel o'u Canolfan hwythau. Pan gyrhaeddais yno ym 1997 yr unig gyfle gaent i gymdeithasu oedd ar y Sul, a hynny ond yn achlysurol, gan mai dim ond rhyw bedair neu bum gwaith y flwyddyn yr agorai capel Seion ei ddrysau! Buan y newidiodd pethau ar ôl i mi gyrraedd oherwydd wrth dderbyn arweiniad bu yno addoli cyson.

Gwelais, er hynny, nad oedd gan yr Archentwyr hyn fodd i gymdeithasu, i fwynhau nosweithiau llawen, i gynnal twmpath, nac i wylïo'r tâpiau fideo y byddent yn eu derbyn gan garedigion o Gymru. Roedd angen Canolfan arnynt. Dyma werthu 'brics' ar eu rhan - punt y fricsen! Eisteddfod Penybont ar Ogwr i ddechrau, Eisteddfod Môn, Eisteddfod Llanelli, Eisteddfod Tŷddewi. Llythyru papurau bro, cymdeithasau o bob math, clybiau cinio a chorau. Derbyn rhoddion gan unigolion a throsoglwyddo'r symiau arian ofal pobl gyfrifol yn Esquel. Digon i osod y sylfaen...digon i godi Canolfan braf. Do, fe'i hagorwyd ym mis Mawrth 2002. Erbyn hyn mae'r Ganolfan wedi agor ei drysau i gannoedd o ymwelwyr o Gymru ac wedi paratoi gwledd o fwyd ar eu cyfer. Ond nid croesawu ymwelwyr yn unig yw amcan y Ganolfan.

Mae hi ar agor yn ddyddiol er mwyn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr o bob oed. Mae cegin fach yno lle bydd y tegell yn mudferwi ar gyfer y mate! Yn y Ganolfan mae'r llyfrgell a'r ffilmgell. Dyna lle bydd y plant yn eistedd wrth draed eu hathrawon a'r ifanc yn

cynnal twmpath ac yn cael hwyl ar actio.
Dyna beth yw newid byd. Dim rhagor o
logi ystafell yma ac acw a neb yn gwybod
beth sydd yn mynd ymlaen. Mae gan
Gymry Esquel aelwyd.

Â'r adeilad bellach, bron â bod yn 14 oed
 mae angen ymestyn. Mae galw am ddwy
 ystafell ddosbarth, am swyddfa fechan, am
 'departamento' ar gyfer yr athrawon a
 ddaw o Gymru a'r gwirfoddolwyr hwythau.
 Mae'r adeiladu ar ei hanner a does fawr o
 obaith cwblhau'r gwaith heb gymorth
 ariannol o Gymru. Derbyniwyd swm o
 arian tuag at yr estyniad gan lywodraeth y
 Dalaith, ond mae hwn eisoes wedi'i wario.
 Disgynnodd y 'peso' yn ei werth ac mae
 costau byw ar ôl i'r llywodraeth newydd
 ddod i fod wedi mwy na dyblu.

Dyma fi, felly, unwaith eto yn cymryd y cyfrifoldeb o ofyn am gyfraniadau gan sefydliadau, cymdeithasau ac unigolion. Gwn fod galwadau lu arnom yng Nghymru y dyddiau hyn, ond os oes rhywun yn teimlo ar ei galon y gall gyfrannu swm o arian, boed fawr neu fach a fydddech mor garedig, os gwelwch yn dda, â chysylltu â mi. Mae cyfrif yn dal i fod ym Manc Lloyds, Rhydaman yn dwyn yr enw 'Canolfan Gymraeg yr Andes.'

Hazel Charles Evans

LLYTHYR

Cadeirydd Rhanbarth
Gwynedd a Môn,
Cymdeithas yr
Iaith Gymraeg

Annwyl Olygydd,
Byrdwn y llythyr hwn yw holi a fyddai eich darllenwyr yn fodlon ystyried dod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Yma yng Ngwynedd, rydym wedi bod yn brysur yn sefydlu Celloedd newydd dros y misoedd diwethaf ac yn parhau gyda sawl ymgyrch gan gynnwys 'Tyfu nid Torri' a'r ymgyrch yn erbyn y cynllun adnau fydd yn golygu miloedd o dai diangen dros Gwynedd a Môn. Mae sawl digwyddiad cyffrous ar y gweill gan gynnwys gig gan Gell Coleg Meirion-Dwyfor Pwllheli yn Nghlwb Rygbi Pwllheli ar yr 2il o Ebrill. Yn genedlaethol mae llwyddiannau gweithgarwch y Gymdeithas yn y misoedd diwethaf yn cynnwys:

- Symud ymlaen â'r ymgyrch Addysg Gymraeg i Bawb ac at ddileu'r cysyniad o Gymraeg ail-iaith. Mae'r Prif Weinidog Carwyn Jones, mewn cyfarfod â'r Gymdeithas wedi cytuno â'r egwyddor fod diffyg sylfaenol yn y drefn 'Cymraeg Ail Iaith'. Bellach, mae consensws ymysg y pleidiau gwleidyddol o ran trawsnewid y gyfundrefn.
- Ar ôl degau o gyfarfodydd a llythyru, yn 2015 pasiwyd deddf yn y Cynulliad sy'n golygu statws cryfach i'r Gymraeg yn y system gynllunio
- Ymgyrchu o ran cadw cyllid y Coleg Gymraeg Cenedlaethol, rydym yn pwyso am sicrwydd tymor hir.
- Lobïo trwm o ran cyllid teg i S4C: mae'r cyllid hwnnw wedi'i sicrhau am flwyddyn arall, ond rydym yn pwyso am sicrwydd tymor hir.
- Ymgyrchu i gryfhau hawliau i'r Gymraeg drwy'r 'Safonau' sy'n cael eu gosod gan

Gomisiynydd y Gymraeg i wahanol sefydliadau, megis gwasanaethau iechyd a gofal, cwmnïau ffôn ac ynni.

- Cafwyd cyfarfod â chwmni Google i wthio'r Gymraeg ar agenda cwmnïau technolegol. Rydym yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i gyfarfod â nhw yn ogystal.
- Yn dilyn cyfarfodydd a llythyru, mi fydd rheidrwydd ar ganolfannau hamdden trwy Gymru sydd yn cael eu hariannu gan y cynghorau sir, o ddiwedd Mawrth ymlaen, gynnig gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â chysiau hyfforddiant eraill.

Mae gwaith y Gymdeithas yn dal i sicrhau fod y Gymraeg ar yr agenda wleidyddol. Mae'r Gymdeithas yn undeb o bobol sy'n sefyll dros ein hawliau fel siaradwyr Cymraeg. Po fwyaf o aelodau sydd gan y Gymdeithas y mwyaf o glowt sydd ganddi a'r mwyaf y gall ei gyflawni. Mae gan y Gymdeithas bump o swyddogion cyflogedig. Mae gan y Gymdeithas bymtheg o swyddogion Senedd. Mae gan y Gymdeithas ddeg cell a chwech rhanbarth, ac rydym wrthi'n sefydlu mwy o gelloedd lleol.

Rydym hefyd wrthi'n teithio o gwmpas y wlad mewn bws ar hyn o bryd i rannu ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg o dan Lywodraeth nesaf Cymru, gallwch chi ei ddarllen yma:

<http://cymdeithas.cymru/miliwn>.

Mae yna ddegau o ffyrdd y gallwn ni i gyd
wneud ein rhan dros y Gymraeg. Gan
obeithio fy mod wedi'ch annog i ymwroli
ac ymuno, a gyda diolch am eich amser.

I ymaelodi, ewch i

<http://cymdeithas.cymru/ymaelodi>

Neu ffoniwch ni ar: 01970 624501

Neu anfon siec at: Cymdeithas yr Iaith

Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria,

Aberystwyth, SY23 2AZ

Menna Machreth

Dyddiadau Cau
Cystadlaethau
Eisteddfod Paradwys
a'r Fro, Ynys Môn,
2016:

Gŵyl Offerynnol
Ebrill 30ain 2016

Adran Celf a chreffft
Ebrill – 30ain 2016

Adran llais/cerdd dant/canu
gwerin/Dawns disgo,
hiphop,stryd a dawnsio gwerin –
Mai 7fed 2016

Adran Llefaru – Mai 7fed 2016

Cysyllter:
anwenweightman@googlemail.com



Cyfarwyddwyr Ynni Ogwen ac Alun Ffred Jones, AC

DATGANIAD GAN YNNI OGWEN CYF

Ddydd Sadwrn olaf Chwefror cynhaliwyd digwyddiad arbennig yn Neuadd Ogwen i lansio cynllun ynni cymunedol arloesol yn Nyffryn Ogwen. Yng nghwmni Alun Ffred Jones AC a llond neuadd o fynychwyr, rhoddwyd cyflwyniadau ar gynllun ynni dwr fydd yn cael ei adeiladu ar yr afon Ogwen. Cynllun cymunedol pur yw hwn. Cynllun y bydd y gymuned yn ei berchnogi ac yn elwa ohono.

Cymdeithas budd cymunedol yw Ynni Ogwen Cyf a'n gweledigaeth yn syml yw defnyddio grym llif Afon Ogwen i gynhyrchu trydan a defnyddio'r elw i'w ail-fuddsoddi yn ein cymunedau. Er i ni wynebu heriau aruthrol, yn **parhad o dudalen 3.....** cynnwys toriadau o du San Steffan i'r cyfraddau cymhorthdal Feed in Tariff, mae'n braf gallu dweud fod gan Ynni Ogwen Cyf gynllun cymunedol hyfyw fydd yn dod â budd amgylcheddol a chymdeithasol i'r ardal. Bydd y cynllun yn cynhyrchu tua 500,000 kW awr o egni gwyrdd y flwyddyn gan arbed 245 tonnell o allyriadau carbon yn flynyddol. Bydd y cynllun yn cynhyrchu oddeutu £67,000 o incwm yn flynyddol gyda chyfran o'r incwm yma yn mynd yn ôl i ad-dalu benthyciadau i'r banc a thalu dididend i'n cyfranddalwyr cymunedol (rhwng 3% a 5%). Bydd unrhyw weddill yn cael ei roi i elusen newydd fydd yn dyrannu'r arian i fudiadau cymunedol ac amgylcheddol yn lleol. Ar sail ein cynllun busnes, rydym yn amcanu i gynhyrchu **£450,000** o elw i'r gymuned dros 20 mlynedd cyntaf cynllun Ynni Ogwen.

Mae costau adeiladu'r cynllun hydro yn debygol o fod ychydig dros £500,000 ac ar y 27ain o Chwefror, agorwyd cynllun cyfranddaliadau cymunedol fydd yn rhoi cyfle i bobl leol, cymdeithasau a busnesau fuddsoddi yn ein menter. Cafwyd adborth cadarnhaol tu hwnt i'r fenter yn ystod y digwyddiad ac mae cyfranddaliadau yn brysur gael eu prynu. Mae'r gwahoddiad i fuddsoddi yn y fenter yn agored i unrhyw unigolyn dros 16 oed, unrhyw fusnes neu sefydliad. Anogwn unrhyw un sydd eisiau creu dyfodol gwell trwy ddefnyddio adnoddau naturiol lleol i fuddsoddi yn y cynllun arloesol hwn. Mae'r cyfle i fuddsoddi yn cau ar y **25ain o Ebrill** felly gofynnwn i bobl fuddsoddi yn fuan. Gallwch fuddsoddi ar-lein trwy'n gwefan

www.ynniogwen.cymru neu mae croeso i chi lenwi'r ffurflen yn y prospectws a thalu yn draddodiadol. Mae croeso i chi alw heibio Meleri Davies yn Swyddfa Partneriaeth Ogwen i drafod ymhellach.

Y PRIF WEINIDOG YN CEFNOGI CAIS LLECHI CYMRU

Mae Cyngor Gwynedd wedi croesawu cefnogaeth Prif Weinidog Cymru ar gyfer eu gwaith i enwebu diwydiant llechi hanesyddol Gogledd Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd nesaf Cymru. Cafodd rhai o gynghorwyr a swyddogion y Cyngor gyfle i drafod y cynllun efo'r Prif Weinidog yn ystod ei ymweliad diweddar â Chwarel y Penrhyn a Zipworld ym Methesda.

Cyngor Gwynedd sydd yn arwain y cynllun i ennill dynodiad UNESCO ar ran nifer o bartneriaid sydd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywio, y Cynghorydd Mandy Williams-Davies ei bod yn falch iawn fod y Prif Weinidog, Carwyn Jones am gefnogi cynllun sydd o ddiddordeb lleol a chenedlaethol.

Meddai: "Roedd yn amlwg yn gwerthfawrogi'r buddion economaidd posibl o gael Safle Treftadaeth y Byd diwydiannol newydd i Ogledd Cymru.

"Mae'r diwydiant llechi wedi cael dylanwad enfawr ar gymunedau, tirwedd treftadaeth a diwylliant y sir, ac mae hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn hanes a datblygiad y Chwyldro Diwydiannol yng Nghymru ac ym mhedwar ban byd."

Edrych i'r dyfodol

Dywedodd Prif Weinidog Cymru: "Mae ein Safleoedd Treftadaeth y Byd yma yng Nghymru, gan gynnwys cestyll Iorwerth y Cyntaf yn y Gogledd, yn ased pwysig i'r wlad gan ddod â chydabyddiaeth ryngwladol i ni a denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Mae ennill y statws hwn yn her fawr, ond os bydd yn llwyddiannus bydd yn hwb sylweddol i'r ardal leol a'r economi ehangach.

"Mae hanes y diwydiant llechi yn y Gogledd o'i ddechrau di-nod i ddiwydiant sydd wedi allforio i bob rhan o'r byd yn berthnasol ledled y byd. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi'r gwaith a wnaed hyd yma gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid wrth weithio tuag at statws treftadaeth y byd ac rwy'n edrych ymlaen at ei gynydd."

Yn ystod yr ymweliad cafodd y Prif Weinidog gyfle i weld llechi yn cael eu hollti gan beiriannau modern a hefyd gan gyn a morthwyl yn siediau Welsh Slate yn Chwarel y Penrhyn. Clywodd y Prif Weinidog hefyd am rôl economaidd bwysig y chwarel a sut mae llechi o'r chwarel yn parhau i gael eu defnyddio led-led gwledydd Prydain a'u hallforio i weddill Ewrop a thu hwnt.

Mae Zipworld sydd ar gyrion y chwarel, yn fenter dwristiaeth sydd yn mynd o nerth i nerth wrth i ymwelwyr gael cyfle i wibio ar wifren ar draws un o geudyllau'r Penrhyn.

Cafodd y Prif Weinidog weld cynlluniau i adeiladu pencadlys newydd y cwmni ar y safle. Mae disgwyl i'r adeilad agor yn hwyrach eleni.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

LLENWI'R CWPAN
Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Cofiwch bod ôl-rifynnau o'r Llais
ar gael ar wefan y papur:
www.llaisogwan.com

GAIR NEU DDAU
UN FFRIND

Roedd fy nghalon yn gwaedu drosto o ddarllen y neges oedd ar y sgrin o'm blaen. "Mae gan Amlyn un ffrind." [Yn naturiol, dwi wedi newid yr enw, rhag rhwbio halen i'r briw!] Druan ohono. Dim ond un? O nabod yr hogyn, roedd yn anodd credu'r peth. Un ffrind? Minnau wedi meddwl erioed fod ganddo lawer ohonyn nhw ... yn y capel, yn y gwaith, yn y pentref, yn y gwahanol gymdeithasau y mae'n ymwneud â nhw. Ond yn ôl y neges hon, un ffrind, ac un ffrind yn unig oedd ganddo. Ac yn ei neges, roedd yr un ffrind honno yn gofyn i mi fod yn ffrind i'r creadur. Sut allwn i wrthod? Doeddwn i'n ei nabod ers talwm, a wastad wedi meddwl amdano fel hogyn annwyl a chlên! Wrth gwrs fy mod i'n fodlon bod yn ffrind iddo. Ac mi bwysais y botwm, a diolch fod gan Amlyn o'r eiliad honno ymlaen ddau ffrind ar Facebook!

Yn amlwg, newydd gofrestru â Facebook oedd Amlyn, a dechrau hel 'ffrindiau' oedd o. A does a wnelo 'ffrindiau' Facebook fawr ddim â bod yn wir gyfaill wrth gwrs. Cydnabod neu gysylltiadau – a'r rheiny'n aml yn gysylltiadau pell iawn yw llawer o'r 'ffrindiau' sy'n cael eu rhestru. Ond beth bynnag am hynny, o fewn awr neu ddwy – wir i chi – roedd gan Amlyn naw ffrind! Mae pethau'n gwella. Peth ofnadwy yw bod heb ffrindiau. Pwy ohonom all ddychmygu bod heb yr un ffrind yn y byd? Un a ddaeth yn agos iawn at hynny yn sicr oedd Iesu Grist adeg y Pasg. Roedd ei ffrindiau agosaf wedi cilio draw, a'i adael i sefyll ei brawf ar ei ben ei hun. Ac yna, ac yntau'n crogi ar groes, dim ond tair neu bedair o'r gwragedd a fu'n ei ddilyn ac un o'i ddisgyblion oedd i'w gweld. Roedd y gweddill 'yn sefyll yn y pellter ac yn gweld y pethau hyn' (Luc 23:49). Ond lle bynnag y safai'r rhain, dioddefaint a marwolaeth unig a brofodd Iesu. Mor unig, ac yntau'n dioddef y gosb gyfiawn am bechod byd cyfan, nes y gallai ddweud fod hyd yn oed ei Dad nefol wedi cefnu arno; 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?' (Mathew 22:46).

Ac eto, mae'n rhaid cofio rhywbeth a ddywedodd Iesu cyn hynny wrth iddo sôn am ei gariad at ei bobl. 'Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion' (Ioan 15:13). Ac meddai yn y frawddeg nesaf, 'Yr ydych chi'n gyfeillion i mi os gwnewch yr hyn yr wyf fi'n ei orchymyn ichwi'. Fe wyddai Iesu y byddai ef ei hun cyn bo hir yn 'rhoi ei einioes' dros y disgyblion hyn a fyddai'n cefnu arno, ond mae'n mynnu mai'r union bobl a fyddai'n gwneud hynny oedd ei gyfeillion wedi'r cwbl. A'r Pasg hwn, caiff pawb ohonom sy'n credu yn Iesu ddathlu'r faith ein bod, trwy drugaredd, ymhlith y miliynau o gyfeillion sydd gan yr un a fu, bawn y Groglith, yn ddigyfaill.

JOHN PRITCHARD

HANES LLIFOGYDD TAL-Y-BONT,
GŴYL SAN STEFFAN 2015

Cynghorydd
Dafydd Meurig



I'r rhan fwyaf o bobl y Dyffryn, mae'n debyg mai diwrnod diog oedd y dydd ar ôl y Nadolig. Mynd am dro efallai, y plant yn chwarae efo'u tegannau newydd, neu wylïo ffilm dda ar y teledu.

Ond i drigolion Tal-y-bont, ac i oddeutu ugain o deuluoedd yn enwedig, roedd hi'n hunllef.

Dros nos bu'n glawio'n drwm, ac mi roedd y dŵr wedi llifo oddi ar y mynyddoedd gan chwyddo'r afonydd. Ym Maes y Groes, ble nad oedd yr afon a'r pontydd yn gallu ymdopi efo'r dilyw, fe lifodd y dŵr ar draws y ffyrdd a'r caeau i'r A55 gan ei chau'n gyfangwbl. Erbyn 8 o'r gloch y bore roedd cymaint o ddŵr ar yr A55 nes y daeth dros y clawdd i mewn i bentref Tal-y-bont gan lifo drwy hyd at ugain o gartrefi, a chapel Bethlehem.

Anghofia'i fyth fod at fy mhen-gliniau mewn dŵr yn ceisio helpu y gorau medrwn. Roedd cryfder llif y dŵr wedi cario eiddo pobl allan o'u tai hyd at gannoedd o lathenni a gadael mwd du ar ei ôl. Collodd ambell un bopeth, ambell un arall wedi dod i lawr y grisiau yn y tywyllwch i bwl o ddŵr oer budr yn eu stafell ffrynt. Roedd y capel, y festri, a'r fynwent dan ddŵr. Yn anffodus, roedd y profiad yn gyfarwydd iawn i bobl Tal-y-bont, oherwydd fe ddigwyddodd yr un peth yn union dair blynedd ynghynt, ym mis Tachwedd 2012. Wedi'r digwyddiad hwnnw, trefnais gyfarfod cyhoeddus ac ymchwiliad i achos y llifogydd, a gweithiodd peirannwyr Cyngor Gwynedd ar gynllun fyddai'n atal llifogydd tebyg yn y dyfodol. Erbyn Ionawr 2014 roedd y cynlluniau'n barod, a bu arddangosfa gyhoeddus yn festri Capel Bethlehem. Roedd yn gryn siom i mi na

chytunodd Llywodraeth Cymru i ariannu'r cynllun, yn enwedig o gofio y byddai hefyd yn atal llifogydd ar yr A55.

Roedd pobl Tal-y-bont yn amlwg yn flin iawn o sylweddoli na fyddai llifogydd 2015 wedi digwydd pe bai'r Llywodraeth wedi caniatáu adeiladu'r Cynllun yn yr Haf, yn unol â dymuniad Cyngor Gwynedd.

Bump diwrnod ar ôl y llifogydd, fe wnaeth Prif Weinidog Cymru ymweld â'r Gogledd, ond er iddo ddod i edrych ar yr A55 oddi ar bont gerllaw Tal-y-Bont, ni ddaeth i'r pentref ei hun i siarad â'r trigolion. Roedd y methiant hwn yn gyfle am ymgyrch i'w berswadio i ddod yn ei ôl, ac rwy'n ddiolchgar i bawb a gymerodd rhan yn yr ymgyrch honno - a ddigwyddodd yn bennaf ar y cyfryngau cymdeithasol, Trydar a Facebook.

Daeth Carwyn Jones yn ei ôl ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, ac roedd cryn ddiddordeb yn y stori o du'r papurau newydd, y radio, a newyddion y teledu. Cefais y cyfle i egluro i'r Prif Weinidog yr hyn ddigwyddodd ar Wyl San Steffan, i'w gyflwyno i rai o'r bobl gafodd eu heffeithio, ac i geisio'i berswadio i ariannu'r Cynllun. Mae'n dda cael adrodd y bu'r ymgyrch yn llwyddiannus, a bellach mae'r gwaith ar fin cychwyn.


Hanfod y Cynllun yw creu 'overflow' mewn afon gerllaw Maes y Groes, a fydd yn dargyfeirio gormodedd dŵr drwy bibell fawr, chwe troedfedd, yn ddiogel i'r Afon Ogwen ger Felin Cochwillan. Bydd hyn yn gwarchod yr A55 a Thal-y-bont rhag llifogydd yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i Alun Ffred Jones, Aelod Cynulliad Arfon, ac i bobl Tal-y-bont a thu hwnt, am eu cymorth i gael y maen i'r wal.

.....
CARNEDDI ROAD AR DDIWEDD Y PUMDEGAU A DECHRAU'R CHWEDEGAU
Gan ANDRE LOMOZIK

Ymddangosodd ail ran erthygl Andre Lomozik ar Ffordd Carneddi yn rhifyn Chwefror, ond yn anffodus roedd y map ar goll.

Felly, dyma'r map isod, i'r rhai ohonoch sydd wedi cadw'r erthygl ac am ei ddarllen ochr yn ochr â'r map.



Bethesda

Ffiona Cadwaldr Owen
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW

☎ 601592

Joe Hughes
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
RachubLL57 3LW

☎ 601902

Penblwydd Arbennig
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Jean Thomas, 39 Abercaseg, ar ddathlu ei phenblwydd yn 60 mlwydd oed ar 9 Mawrth. Cynhaliwyd parti mawr yn y Clwb Criced a Bowlio i ddathlu'r achlysur. Penblwydd hapus Jean – a llawer ohonyn nhw! Mi fydd y “bus pass” yn handi rŵan!!



Jean yn barod i dorri ei chacen penblwydd

Hen Nain
Llongyfarchiadau i Mrs. Jennie Jones, 11 Bryn Caseg, ar yr achlysur hapus o ddod yn hen nain unwaith eto – y tro yma i efeilliaid – dwy ferch fach. Hefyd, llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Derek Griffiths, Abercaseg, ar ddod yn hen daid a hen nain i ferch fach, ac i Kevin a Beverley, Allt Penybryn, ar ddod yn daid a nain unwaith eto, gyda genedigaeth merch fach i Liam a’i gymar ym Mhenygroes.
Ysbyty
Unwaith eto bu rhai yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwella. Anfonwn ein cofion atoch i gyd:- Mr. Ian Griffith, Penybryn; Mrs. Nancy Thomas, Rhes Gordon; Mrs. Vera Davies, Dolgoch; Mrs. Eileen Evans, Rhos y Nant; Mrs. Buddug Hughes, Ffordd

Carneddi, Mr. Cyril Ward, Lôn Newydd Coetmor.
Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at rai a fu mewn profedigaeth yn ystod y mis. Mrs. Helen Roberts a’r teulu i gyd, Ffordd Ffrydlas. Collodd Helen ei brawd, Mr. Edison Jones, Benllech. Teulu’r diweddar Mr. Ian Hughes, Bangor, gynt o Ffordd Ffrydlas, a fu farw’n sydyn yn ei gartref ar 2 Chwefror. Mr. a Mrs. Gwilym Williams, a’r teulu, Ffordd Coetmor, yn eu profedigaeth o golli Alan.
Marw
Mr. Roy Desborough Jones
Ar 19 Chwefror, yn yr ysbyty, bu farw Mr. Roy Desborough Jones, 21B Stryd Fawr, yn 70 oed. Tad hoffus a gofalus Sharon a Jonathan, a thaid i Lauren, brawd bach i Renee a Bobby a brawd yng nghyfraith i Maureen. Ni fu iechyd Roy yn dda ers sawl blwyddyn, ond roedd bob amser yn barod am sgwrs â phawb ar y Stryd Fawr. Cafodd ei fagu ym Mraichmelyn, yn fab i’r diweddar Mr. a Mrs. Robert ac Ellen Jones, a bu’n gweithio am flynyddoedd yn Chwarel y Penrhyn. Cynhaliwyd ei angladd fore Gwener, 26 Chwefror, yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlosgfa Bangor, gyda’r Barchedig Christina McCrea yn arwain y gwasanaeth a Mrs. Christine Edwards wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich profedigaeth o golli Roy.
Mr. Merfyn Lewis
Yn dawel yn ei gartref, 14 Abercaseg, ar 21 Chwefror, bu farw Mr. Merfyn Lewis yn 76 oed. Priod annwyl Mrs. Glenys Lewis, tad hoffus Jackie a Jason, a llys-dad Hugh. Tad yng nghyfraith Elaine a thaid caredig i Dylan, Gavin, Aaron, Cai, Tomos Jack, Eoin, Osian a Catriona, a brawd annwyl i Gwyneth. Bu’r gwasanaeth angladdol ddydd Gwener, 26 Chwefror yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Ddr, Hugh John Hughes. Cydymdeimlwn â chwi Glenys, a’r teulu i gyd
Teledu
Os ydych yn teimlo fel fi, mi fyddwch yn drist o weld bod y gyfres “Death in Paradise” wedi dod i ben, ond braf oedd gweld gŵr a addysgwyd yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn actio un o brif gymeriadau’r bennod olaf. Mae Owain Arthur o Rhiwlas, yn ŵyr i Mrs. Arfona Edwards,

Maes y Garnedd.
Gorffwysfan
Cynhaliwyd cyfarfod o’r pwyllgor fore Llun, 22 Chwefror am 11.00yb gyda Mr. Elfed Bullock yn y gadair. Roedd 12 aelod yn bresennol, sef:- Vernon Owen, Joe Evans, Gilbert Bowen, Dennis Dart, Edric Jones, Owen J. Evans, Rhiannon Efans, Dilwyn Owen, Selwyn Owen, Dafydd Pritchard, Elfed Bullock a Joe Hughes. Cafwyd gair o groeso gan y cadeirydd gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb, ac anfonodd gyfarchion y clwb at yr aelodau sy’n sâl gan ddymuno gwellhad iddynt, sef:- Mrs. Alice Jones, Mr. Jim Amos, Mrs. Eirwen Owen, Mrs. Christine Jones a Mrs. Nancy Williams. Cadarnhawyd cofnodion pwyllgor 5 Hydref 2015, ac fe gafwyd adroddiad boddhaol iawn gan y Trysorydd o sefyllfa ariannol y clwb. Diolchwyd iddo am ei waith gan y cadeirydd.
Materion a drafodwyd:
Gwibdeithiau 2016
Mynegwyd siom yn yr ymateb a fu i’r bleidlais yn ein cinio

Merched y Wawr Bethesda

Nos Iau Chwefror 25ain dathlodd y gangen Gwyl Dewi, yn gynnar, yng Nghaffi Coed y Brenin. Cafwyd gair o groeso gan y llywydd Elina Owen.
Doedd dim un aelod wedi anfon ymddiheuriad ond anfonwyd cyfarchion a dymuniadau da i ddwy oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch. Darllenwyd llythyr gan y deillion am y rhodd a gafwyd iddynt gan Marian Hughes, siaradwraig mis diwethaf. Cyflwynwyd Gwilym Bowen Rhys yr adloniant am y noson. Mae Gwilym yn ŵr ifanc sydd yn ymddiddori yn y cyfoeth o ganeuon gwerin a hen faledi sydd gennym yn yr iaith Gymraeg. Mae o hefyd yn ganwr pop, yn canu a chyfansoddi ei ganeuon ei hun gyda’i ddwy chwaer, yn galw eu hunain yn "Plu". Maent wedi cynhyrchu CD o ganeuon plant gyda trefniannau diddorol iawn. Cawsom noson ddifyr iawn yn gwrando arno yn cyflwyno caneuon gwerin doniol, anghyfarwydd i ni, i gyfeiliant ei gitâr bob yn ail a pheidio. Clywsom enghreifftiau o hen faledi oedd yn cael eu canu

Nadolig. Dim ond 23 taflen a ddaeth i law allan o’r 47 a ddosbarthwyd, ac felly mae’r pwyllgor wedi penderfynu ar y gwibdeithiau isod (pob un ar ddydd Mercher):-
20 Ebrill: Caer.
29 Mehefin: Southport.
20 Gorffennaf: Gwibdaith Ddirgel.
14 Medi: Gerddi Gordale a Lerpwl.
9 Tachwedd: Wyddgrug a Brychdyn.
Cinio Nadolig 2016:- Dyddiad a lleoliad i’w drafod eto.
Bore Coffi 2016:- Cadarnhawyd mai’r dyddiad fydd 21 Mai yng Nghanolfan Cefnfaes (10.00 – 12.00).
Rhif Aelodaeth:- 4 rhif sydd ar gael. Daeth cais am ddau gan Selwyn Owen a Glyn Williams. Swyddogion am 2016. Ail-etholwyd Elfed Bullock (Cadeirydd), Rhiannon Efans (Is-gadeirydd), Owen J. Evans (Trysorydd), Vernon Owen (Is-drysorydd) a Joe Hughes (Ysgrifennydd).
Diolchodd y Cadeirydd i Dennis am ei waith yn ystod y flwyddyn, ac diolchodd yr Is gadeirydd i’r swyddogion am eu gwaith hwythau yn ystod 2015.

mewn ffeiriau ar hyd y wlad oedd yn rhoi darluniau o gyflwr safonau byw y ddeunawfed ganrif yn ogystal a bod yn gyfrwng rhannu newyddion i’r werin. Eglurodd ei fod wedi dethol yn ofalus o’i gasgliad, y geiriau mwyaf gweddus i glustiau merched parchus fel Merched y Wawr. Roedd rhai yn gallu bod yn fasweddus a chignoeth. Talodd deyrnged a diolch i’r diweddar Meredydd Evans am y gwaith a wnaeth yn casglu caneuon gwerin i’w rhoi ar gof a chadw. Cawsom noson llawn hwyl i’n clustiau. Y farn gyffredinol oedd, orig o ganeuon hen newydd i ni. Diolchwyd iddo gan y llywydd, a adroddodd hanes doniol am ffeiriau Sir Gaerfyrddin ers talwm a gafodd gan ei thad. Mae Elina yn berchen hiwmor rhyfeddol a cawn gip ohono yn achlysurol. Soniodd hefyd fod Gwilym yn ŵyr i sylfaenydd y mudiad sef Zonia Bowen. I orffen cawsom swper bwffe helaeth iawn hefo digon o de a choffi a phwdin treiffyl neu gacen siocled i’n hanfon adre yn fodlon. Roedd gwobr lwcus rhoddedig gan Jennie Jones, enillydd Eleanor Morris. Edrychwn ymlaen at y cyfarfod nesaf.

Eglwys Crist, Glanogwen



Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:
Sul Cyntaf pob mis - Boreol Weddi Cymraeg – 11.00am
Ail Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
Trydydd Sul pob mis – Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)
Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid
Dydd Sul, Mawrth 20fed, Sul y Blodau, Cymun Bendigaid – 11.00am
Mawrth 25ain, Dydd Gwener y Groglith , Yr Awr Olaf, 2.00pm
Dydd Sul, Mawrth 27ain, Dydd y Pasg - Cymun Toriad Gwawr, Maes Parcio, Llyn Ogwen, 6.40am
Dydd Sul, Mawrth 27ain, Dydd y Pasg - Cymun Bendigaid, 8.00am
Dydd Sul, Mawrth 27ain, Dydd y Pasg – Cymun Bendigaid, 11.00am
Gan ddymuno Gŵyl y Pasg bendithiol i bawb yn y fro. Mae yna nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylder. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o'r gwasanaethau.

Yr Eglwys Unedig, Bethesda

Oedfaon y Sul
Daliwn i gael oedfaon diddorol ac addysgiadol, gyda nifer teilwng yn bresennol. Fore Sul, Chwefror 28ain, yn dilyn y bregeth, gweinyddwyd y Cymun gan Y Parchedig Gareth Edwards, a thystia'r rhai a oedd yno iddynt gael bendith o'r oedfa gyfan.
Cyfarfodydd Gweddi
'Roedd cyfarfod mis Chwefror o dan ofal Rhiannon, gydag Elna a Luned yn cynorthwyo, a Gwenno'n cyfeilio. Minnie a ofalodd am gyfarfod mis Mawrth, gyda Joe Hughes yn ei chynorthwyo, a Jean yn cyfeilio. Diolch iddynt i gyd



Andre Lomozik (dde) gyda Joe Hughes, Llywydd Cymdeithas Jerusalem

am fod mor barod i gymryd rhan.
Y Gymdeithas
Yn ôl yr arfer, croesawyd pawb gan ein llywydd, Joe Hughes, a darllenwyd yr englyn gan Ceri. Andre Lomozik oedd yn cynnal y noson, gan ddangos lluniau o adeiladau cofrestredig sydd yn yr ardal hon, a chafwyd orig ddifyr yn ei gwmni. Diolchwyd iddo, ac i ferched y baned, gan Joe.
Yr Ysgol Sul a Chlwb yr Ifanc
Mae'r plant a'r criw ifanc wedi ail-gydio yn eu gweithgareddau ar ôl yr hanner tymor, ac yn brysur unwaith eto – diolch amdanynt!
Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Olive Jones, Stryd y Dŵr, yn eu profedigaeth o golli priod, mam, nain a chwaer annwyl iawn. Fe ganwyd emyn er cof amdani yn ystod yr oedfa nos Sul, Chwefror 21ain, gyda'r teulu'n bresennol, a thalwyd teyrnged deimladwy iddi ar ran yr Eglwys Unedig gan Jean. Bu presenoldeb a chyfraniad Olive i oedfaon a gweithgareddau eglwysi Brynteg a Jerusalem yn amhrisiadwy a bydd bwlch mawr ar ei hôl.
Cofiw'n, yn yr un modd, am y rhai sydd yn wael, ac yn methu dod i weithgareddau'r capel. Deallwn bod Mrs Eileen Evans yn disgwyl mynd i'r ysbyty yn y dyfodol agos, a dymunwn wellhad buan iddi – 'rydym yn gweld eich colli.
Côr Y Dyffryn
Mae ymarferion y Côr wedi aildechrau, y tro hwn ar gyfer cymryd rhan yn y Gymanfa a gynhelir yn Jerusalem nos Sul, Mai 22ain, am 6 yr hwyr.
Cyhoeddiadau
Mawrth 20: Y Parchedig Brian Wright (10 a 5)
Mawrth 27: Y Parchedig Trefor Lewis (10 a 5)

Ebrill 3: Y Parchedig Gwenda Richards (5)
Ebrill 10: Miss Nerys Jackson (10 a 5)

Braichmelyn

Rhiannon Ifans
Glanaber, Pant, Bethesda

☎ 600689

Damwain
Anfonwn ein cofion, a'n dymuniadau gorau am wellhad buan, at Mr. Dylan Davies, a anafodd ei goes tra'n sgïo gyda disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen.
Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo gyda Nita Jones, Braichmelyn, ac Elna Jones, Cefn Cwlyn, a'r teulu, yn eu profedigaeth o golli cyfnither, sef y diweddar Eirian Pritchard, Rhes Elfed, Bethesda.

Carneddi

Derfel Roberts
Llys Artro, Carneddi

☎ 600965

hylaw@btinternet.com

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teuluoedd hynny a gollodd anwyliaid yn ystod y mis a aeth heibio. Bu'n fis trwm i ardal y Carneddi gyda marwolaethau brodorion o'r ardal oedd â'u gwreiddiau'n ddwfn yn y fro hon.
David Harold Roberts
Ar 5 Chwefror bu farw David Roberts (Daisy), 3 Llidiart y Gwenyn, ac yntau ond yn 55 mlwydd oed. Mae pawb yn cofio "Daisy" fel gŵr hoffus a chyfeillgar gyda gwên i bawb ac yn drydanwr medrus gyda chwmni Jones a Whitehead am flynyddoedd. Brodor o'r Gerlan oedd David ond bu'n byw yn Llidiart y Gwenyn am flynyddoedd ar ôl priodi a magu

teulu. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i briod, Carol, a chyda'r plant, Jade, Jorden a Keiran ynghyd â'r teulu oll, yn enwedig ei fam, Pam, a'i frodyr a'i chwiorydd lluosog yn eu profedigaeth lem. Bydd ei lu mawr o ffrindiau a chydnabod hefyd yn gweld chwithdod mawr o'i golli.
Bu'r gwasanaeth angladdol ddydd Gwener, 12 Chwefror, lle daeth tyrfa fawr o deulu a chyfeillion i or-lenwi Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Barchedig Christina McCrea gyda Mrs. Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â chwi fel teulu i gyd.
Eirlys Roberts
Ar 10 Chwefror yn sydyn ac yn annisgwyl bu farw Eirlys, priod Vic Roberts a mam Andrew a Stephen, 6 Cilfodan yn 70 mlwydd oed. Roedd Eirlys yn ferch i'r diweddar Bet a Gwilym Owen, Ffordd Carneddi ac yn un o gymeriadau Cilfodan a'r Carneddi. Roedd ganddi lu o gyfeillion a chydnabod a bydd bwlch mawr ar ôl cymeriad mor ffraeth a diflewyn ar dafod.
Roedd Eirlys yn berson caredig a hoffus iawn ac yn ofalus o'i theulu a'i chyfeillion. Roedd yn llawn hwyl, ac wrth ei bodd yn cael gêm o Bingo!
Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Jerusalem a mynwent Coetmor, ar ddydd Llun, 15 Chwefror, gyda'r Parchedig Ddr. Hugh John Hughes yn gwasanaethu a Mrs. Menai Williams wrth yr organ.
Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r holl deulu gan gynnwys yn arbennig, Vic a'r bechgyn, a hefyd y merched yng nghyfraith, Karen a Sioned a'r wyrion a'r wyresau, Catrin, Iwan, Morgan a Seren Mai, heb anghofio ei chwiorydd Nesta a Helen.
Diolch
Dymuna Victor Roberts, 6 Rhes Cilfodan, a'r teulu fynegi eu diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli Eirlys – yn gardiau, llythyrau, galwadau ffôn ac ymweliadau. Dymunant hefyd ddiolch i'r rhai a gyfrannodd i'r gwasanaeth angladdol ar y 15fed o Chwefror – i swyddogion Capel Jerusalem; i Menai Williams, yr organyddes; i'r Parch. Huw John Hughes, cyd-ddisgybl i Eirlys yn Ysgol Dyffryn Ogwen, am ei wasanaeth yn y Capel ac ym mynwent Coetmor, gan

parhad ar y dudalen nesaf...

gynnwys y deyrnged hyfryd yn rhoi darlun mor fyw a hoffus o’i chymeriad; i swyddogion y Clwb Criced am bob hwylustod gyda chynnal y te cynhebrwng; i staff Caffi Coed y Brenin am ddarparu lluniaeth; ac i Stephen a Gareth Jones a’u cynorthwywyr am eu trefniadau effeithiol a gweddus.

Gwerthfawrogaï Victor a’r teulu fod hen gyfeillion a chymdogion ynghyd â pherthnasau wedi teithio’n bell i gael bod yn bresennol, yn arbennig felly gyfnither Eirlys, a’i mab, o Swydd Mayo, Iwerddon.

Olive Jones

Ar 11 Chwefror collwyd Olive, priod annwyl Gary, a mam Colin ac Alison, a chwaer i Betty, Ann, Brian ac Emyr, o 10 Stryd y Dŵr, a hithau’n 72 mlwydd oed. Roedd Olive hefyd yn un o blant y Carneddi ac yn gymeradwy gan bawb o’i chyd nabod. Roedd ganddi gyfarchiad siriol i bawb a bydd colled fawr ar ei hôl. Ein cydymdeimlad dwysaf â Gary a’r plant ac â’r plant yng nghyfraith, Ellie ac Emyr, hefyd y wyrion, Dewi, Niamh, Lois, Megan, Owain, Glesni, Caleb a Mari. Roedd Olive wrth ei bodd gyda’r teulu, ac yn aelod ffyddlon yng Nghapel Jerusalem wedi i’r achos yng Nghapel Brynteg ddod i ben. Bu ei hangladd brynhawn Mawrth, 16 Chwefror, yng Nghapel Jerusalem a mynwent Coetmor, gyda’r Parchedig Ddr. Hugh John Hughes yn gwasanaethu a Mrs. Gwenno Evans wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd. Casglwyd rhoddion at Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd.

Diolch

Dymuna Gary Jones (10 Stryd Y Dŵr, Carneddi) a'r teulu i gyd ddiolch i bawb am y cardiau a’r negeseuon o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn marwolaeth sydyn Olive – gwraig, mam, nain a chwaer arbennig iawn. Casglwyd arian er cof amdani tuag at ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn arbennig i nyrsys ward Gogarth, Moelwyn ac Alaw. Hosbis yn y Cartref Gwynedd a Môn, Nyrsys Ardal, Nyrsys Macmillan, Mr Stephen Jones (trefnydd Angladd), y Parchedig Mr Huw John Hughes a Chaffi Coed Y Brenin.

Brysiwch wella

Rydym yn falch o glywed bod Buddug Hughes, 22 Ffordd Carneddi wedi dychwelyd o'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan iddi.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW

 601880

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb ar Chwefror 10 lle cafwyd y cyfle o groesau Eifion Jones (Jonsi) atom. Cafwyd sgwrs a gwybodaeth gwerthfawr am waith yr Ambiwllans Awyr, gwasanaeth pwysig i Ogledd Cymru. Cafwyd syniadau hefyd o sut yr oedd yr elusen yn codi arian at gynnal y gwasanaeth. Cafwyd gwybod hefyd eu bod wedi agor siop ar Stryd Fawr, Bangor. Diolchwyd i Mr Jones am sgwrs ddifyr. Cafodd yr aelodau y cyfle i anfon eu cofion at Margaret Rees Williams gan obeithio ei bod yn gwella ac y bydd cyfle i'w chroesawu i'n plith pan fydd y tywydd yn gwella. Croesawyd dwy aelod newydd i'r Clwb sef, Blodwen Cavanagh a Genno Roberts. Ceinwen a roddodd y wobr at y raffl gydag Eirwen yn ennill. Diolchwyd i Jonathan, Londis, a Hannah Roberts, Tesco am eu rhoddion tuag ar y raffl. Diolchwyd hefyd i Heulwen Roberts am ei haelioni a'i chymorth parod i'r Clwb.

Mis Bach - Mis Trwm

Dyna hanes mis Chwefror eleni gyda nifer o deuluoedd wedi wynebu profedigaeth a cholledion. Yn 82 mlwydd oed bu farw **Brian Gashe**, Tân y Bryn, Llanllechid. Un tawel addfwyn iawn oedd Brian a fu ar un cyfnod yn chwarae i dimau peldroed. Peintiwr gyda Cyngor Bangor oedd ei waith dyddiol ac roedd yn un o hoelion wyth y bws ugain munud wedi saith ar y daith foreol i Fangor. Roedd wedi ymgartrefu yn Tân y Bryn ers peth amser, lle y cafodd ofal arbennig. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ar Chwefror 20. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu yn eu colled. Yn dilyn angladd Brian bu gwasanaeth y diweddar **William Emrys Jones**, Coed Ucha' yn yr Amlosgfa, yntau'n 81 mlwydd oed. Fel Wil Bara yr adweinid ef

yn lleol oherwydd ei waith yn gwerthu bara yn ardal Llanfairfechan, wedi cyfnod yn y chwarel. Un o deulu Tai Newyddion, Talybont oedd William ac yn un o saith o blant, pump mab a dwy ferch. Roedd William yn ŵr tawel a bonheddig a gwên ar ei wyneb bob amser. Bu'n weithgar yn cadw trefn ar y fynwent yn Bethehem, Talybont am gyfnod hir, a bydd colled ar ei ôl. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mair ac Helen ei ddwy chwaer a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Anfonwn ein cofion at Janice (Tugwell) hithau wedi wynebu profedigaeth o golli **Terry** yn frawychus o sydyn yn eu cartref yn Y Benllech, Sir Fon. Bu'r angladd yn Eglwys y Bedyddwyr, Penrallt, Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad at Raymond ag Ann, Valerie a Keith a'u teuluoedd.

Hefyd anfonwn ein cydymdeimlad i Barry ac Elaine, Ffordd Llanllechid a'r teulu oll ar achlysur trist marwolaeth brawd Barry.

Wrth i'r *Llais* fynd i'r wasg torrodd y newydd am farwolaeth **Mrs Eirian Pritchard**, Bryn a hithau yn 89 mlwydd oed. Cymeriad hawddgar, tawel a gweithgar oedd Mrs Pritchard. Ymgartrefodd yn ei hen gartref yn Rhes Elfed, Bethesda wedi symud o Bryn, ond daliai yn ffyddlon i'r achos yng Ngharmel lle y bu'n athrawes Ysgol Sul gydwybodol. Athrawes Gwyddor Tŷ oedd wrth ei galwedigaeth a bu yn dysgu mewn ysgolion yn Lerpwl ac yn Amlwch. Anfonwn ein cydymdeimlad â Gareth a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau mawr i Elen Mair Williams, Hen Barc a James Lillie, Ciltrefnus, Gerlan ar achlysur eu dyweddiad rhamantus yng Ngwlad yr Ia ar ddydd Sant Ffolant.

Dymuniadau gorau a chariad mawr oddi wrth y ddau deulu.

Gwellhad Buan

Dyna anfonwn at nifer o drigolion sydd wedi derbyn triniaethau mewn ysbytai dros yr wythnosau diwethaf. Yn eu plith mae John Roberts (Becws), Tyn Ffridd Ucha', Alice Jones, Tân y Garth a Nia Elis Williams, Yr Hen Bwl, Llanllechid

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Annwen a Terry, Lon Groes ar achlysur

genedigaeth ei hefeilliaid, Elsi Ann a Ianto Wyn ar Dachwedd 19 2015, brawd a chwaer bach i Efa Lois a Mali Fflur.

Dymuniadau gorau i chwi i gyd fel teulu oddi wrth Peter ag Annwen, a dyna ein dymuniadau ninnau hefyd.

Cartref Newydd

Pob lwc i Ceri, Lee ac Ela Grace Evans yn eu cartref newydd, 23 Ystâd y Coetmor. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yno.

Er Serchog Gof...

Am fam arbennig, Mrs. Margaret Jones, Bron Bethel, gynt o 36 Maes Coetmor, a hunodd 21 Chwefror 2014 yng Nghartref Cerrig yr Afon, Felinheli.

“Mi glywais lais yr Iesu’n dweud tyrd ataf fi yn awr”. Yn angof ni chaiff fod! Oddi wrth Glenys, Buddug a Bernard.

Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid.

Croesawyd Mr John Hywyn i’r Clwb Hanes y mis diwethaf, i sgwrsio am ei ddiweddar dad, sef y Prifardd Emrys Edwards. Cafodd y gynulleidfa yn Festri Carmel orig ddifyr yn ei gwmni, yn gwrandao arno’n sôn am ei dad a’r teulu yn 15 Ffordd y Mynydd ac yn Lôn Groes, Rachub. Clywyd am yr Emrys Edwards ifanc yn mynychu’r ysgolion lleol, gan gyrraedd ysgol ‘Cownti’ Bethesda pan nad oedd ond 10 oed, ac yna am ei anturiaethau yn y Coleg ym Mangor, pan gafodd y swydd o lywio cwch tîm rhwyfo swyddogol y coleg - ac yntau’n methu nofio! Bu’n cerdded mynyddoedd yng nghwmni Goronwy Roberts [AS], gan gychwyn cynganeddu wrth fynd am dro. Yna, penderfynodd fynd yn offeriad – maes eitha’ ‘gwahanol’ i un o deulu o chwarelwyr Dyffryn Ogwen - ond dilyn ei dad i’r eglwys a wnaeth, er mai capelwraig gref oedd ei fam. Pan gafodd swydd fel Ciwrat yn Abersoch, gofynnwyd iddo ddysgu criw go helaeth o ‘faciwiſ’ yn un o adeiladau’r eglwys, ac yn ystod y cyfnod hwn, ysgrifennodd nifer fawr o storïau ar gyfer y plant oedd dan ei ofal. Yna symudodd i Aberdaron, a chael llwyddiant mawr ym myd barddoni, gyda’r uchafbwynt yn digwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Rhosllannerchrugog 1961, pan lwyddodd i ennill y gadair. Diolch John Hywyn, am gyflwyniad bendigedig.

Capel Carmel

Fore Sul Chwefror 28 daeth llawer o bobol, plant a babanod i wasanaeth Gŵyl Dewi yng Ngharmel. Y plant a'r bobol ifanc oedd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth ac fe wnaeth pob un ohonynt waith ardderchog. Llongyfarchiadau iddynt i gyd a diolch i Owain Morgan am gyfeilio i'r emynau cynulleidfaol ar yr organ. Aeth y casgliad o ganpunt tuag ar waith yr Ysgol Sul. Cafodd pawb wahoddiad i ddod am banad, cacen a sgwrs yn y Ffestri ar ddiwedd y gwasanaeth.

Trefn Gwasanaethau
Mawrth 20: Parchg. Gwyndaf Jones. (5.00)
Mawrth 27: Gweinidog (5.00)
Ebrill 03: Gweinidog (cymun) (5.00)
Ebrill 10: Parchg. Tecwyn

Roberts (5.00)
Ebrill 17: Oedfa'r Chwirydd. Yr Ysgol Sul am 10.30 yb. Clwb Dwylo Prysor: Nos Wener am 6.30 yh. Croeso cynnes i bawb.

Y Cleifion
Anfonwn ein cofion at ein haelodau sydd yn sâl gartref.

Dau Aelod Newydd
Hyfryd iawn oedd bod yn bresennol yn yr Oedfa Gymun ym mis Chwefror pan dderbyniodd ein gweinidog, y Parchg. John Pritchard, ddau aelod newydd i'r capel, sef Mr. a Mrs. Eilir Jones a'r genod. Croeso cynnes iawn i chi fel teulu!

Capel Carmel Llanllechid
TE BACH
Mawrth 21 ac Ebrill 11:
2.30 - 4.00

Genedlaethol Cymru o *Chwalfa* yn adeilad newydd Pontio yn ddiweddar, a bu i bawb fwynhau'r perfformiad yn fawr iawn. Braf iawn oedd gweld actorion proffesiynol, ac actorion amatur o Ddyffryn Ogwen yn cydweithio i ddod a'r cynhyrchiad yn fyw inni. Cymrwyd rhannau gwahanol gymeriadau yn y cynhyrchiad gan ddwy actores broffesiynol o'r Gerlan, sef Lisa Jên, o'r Gwernydd, a Gwenno Hodgkins, o'r Wern, a rhoesant berfformiadau cofiadwy iawn inni. Rhagorol yn wir!

Parcio
Mae parcio blêr ac anystyriol yn parhau i greu problemau yn y Gerlan. Mae rhai yn parcio eu ceir mewn mannau sy'n rhwystro bwsiau rhag gallu dod i fyny i ben eu taith ym Mhen Clwt. Dim ond meddwl amdanynt eu hunain mae'r gyrrwyr hunanol hun, gan falio dim am rai llai ffodus na hwy, sy'n methu cael bwsiau o'r pentref oherwydd fod y bwsiau yn methu cael heibio'r ceir sydd wedi eu parcio mor flêr. Mae rhai o'r bwsiau yn gorfod bagio yn eu holau i lawr y ffordd droellog a chul, sydd yn gallu bod yn beryglus. Bydd raid i rywbeth gael ei wneud am hyn yn y dyfodol agos, neu, efallai, y bydd cwmni Arriva yn dod â'u gwasanaeth i'r ardal i ben.

Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo gyda Bethan Jones a David Mon Hughes, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli modryb Bethan, sef y diweddar Eirian Pritchard, Rhos Elfed, Bethesda.

Talybont

Neville Hughes
14 Pant, Bethesda

☎ 600853

Colli yr Olaf o Hogia' Tai Newyddion
Cyda sioc a braw y clywsom am farwolaeth sydyn William Emrys Jones ar 6 Chwefror yng Nghoed Uchaf, Llanllechid. Roedd Wil Tai Newyddion, fel yr adnabyddid ef gan bobl Talybont (neu Wil Bara i eraill), yn 81 mlwydd oed, a heb fwynhau yr iechyd gorau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd wedi gorfod rhoi'r gorau i dorri gwair ym mynwent Capel Bethlehem a llefydd eraill oherwydd poenau yn ei gefn a'i goesau. "Cric mala" meddai Wil!! Un clên a chyfeillgar oedd Wil gyda gwên lydan ar ei wyneb yn aml! Roedd pawb yn hoff ohono ac mi fyddwn yn gweld ei golli.

Fe'i magwyd yn Nhalybont, yn un o saith o blant, pump o hogia' a dwy chwaer. Roedd y flwyddyn 2004 yn flwyddyn galed iawn iddo pan fu farw tri o'i frodyr, Alun, Now ac Eifion. Bu farw Ben rhai blynyddoedd ynghynt. Daeth cynulleidfa niferus i'w angladd yn Amlosgfa Bangor ar fore Sadwrn, 20 Chwefror, gyda'r Parchg. John Mathews yn arwain. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei ddwy chwaer, Mair a Helen a'r cysylltiadau oll yn eu profedigaeth.

Brysiwch Wella
Nid yw iechyd Sandra, 13 Dolhelyg, wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddi.

Eglwys St Cross

Cinio Nadolig
Ar 5 Chwefror cynhaliwyd ein cinio Nadolig yn y Split Willow, Llanfairfechan, yng nghwmni aelodau Sant Tegai a'r Santes Fair, Tregarth. Cawsom noson hwyliog a bwyd blasus iawn, a phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch i Catrin Hobson am drefnu'r noson, ac am y gwahanol eitemau i'n diddanu yn dilyn y swper.

Gwasanaeth Bedydd
Cynhaliwyd gwasanaeth bedydd Taliesin Dafydd, mab Bethan a Tristan, ac Ŵyr i Ann a David Pritchard, a gor-Ŵyr i Phyllis Davies. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein ficer, y Parchg. John Mathews gyda Geraint Gill wrth yr organ – ac roedd Taliesin yn hapus braf yn ystod y gwasanaeth.

Ysbyty
Drwg gennym glywed fod Gracie Griffiths wedi treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd, ond yn falch o ddweud ei bod bellach wedi dychwelyd i Blas Ogwen, ac yn gwella bob dydd. Hoffem anfon ein dymuniadau gorau ati.

Gwasanaethau'r Pasg
Dydd Iau Cablyd am 6 o'r gloch. Dydd Gwener y Groglith:- Gorymdaith yn cychwyn o Landygái am 9.30 yb. Cyrraedd Eglwys St. Cross am 10.45 ac ymlaen i Dregarth. Sul y Pasg am 11.15. Ffestri'r Pasg: Ebrill 19 yn yr Ysgoldy



Y Plant Lleiaf yn barod i ganu eu gorau.



Roedd Dewi Sant yn dysgu am Dduw.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan

☎ 601583

Penblwydd arbennig
Rydym yn llongyfarch Karen Briggs, Stryd y Ffynnon, ar ddathlu ei phenblwydd yn 50 oed yn ddiweddar. Gobeithio iti fwynhau'r diwrnod, Karen.

Rydym i gyd yn dymuno'r gorau i ti i'r dyfodol.

Dod yn nain
Llongyfarchiadau mawr i Carys Wyn Williams, Ciltrefnus, ar ddod yn nain unwaith eto. Ganed Efan i'w mab, Llion, a'i bartner, Kerry, syn byw yn Rhos y Coed yn diweddar Mae Efan yn frawd bach i Elgan, ac mae pawb wedi gwirioni efo'r bychan. Pob hwyl i chi fel teulu.

Chwalfa
Bu nifer o'r ardal yn gweld cynhyrchiad Theatr

Capel Bethlehem



Dychwelyd i’r Capel
Yn dilyn saith Sul heb fedru cynnal oedfa yn y Capel, dychwelwyd yno ar 21 Chwefror gyda Mr. Richard Lloyd Jones, Bethel, yn arwain y gwasanaeth. Er i ni deimlo’n gartrefol iawn am 5 oedfa yn Ysgoldy Maes y Groes, mae’n rhaid cyfaddef ei bod yn deimlad braf iawn cael addoli unwaith eto yn ein cartref ysbrydol!

Oedfaon y Sul
Mawrth 20: Parchg. Brian Wright; Mawrth 27 (Sul y Pasg): Y GWEINIDOG; Ebrill 3: Parchg. Cledwyn Williams, Bangor; Ebrill 10: Y GWEINIDOG; Ebrill 17: Parchg. Emlyn Richards, Cemaes.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Ysbyty
Dymunwn wellhad buan i Dilys Williams yn dilyn ei chodwm ym Mhlas Ogwen.

Colli Aelod
Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs. Margaret Wynn Hughes, gynt o Llys Helyg, Talybont, ym mis Chwefror, a hithau’n 79 mlwydd oed. Bu Margaret yn aelod ffyddlon a gweithgar ym Methlehem hyd nes iddi gael ei tharo gan afiechyd creulon bron i bum mlynedd yn ôl. Golygodd hyn bod raid iddi dderbyn gofal parhaol mewn cartref nyrsio.

Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ar fore Gwener, 4 Mawrth, yng ngofal ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Claddwyd ei llwch gyda’i diweddar briod, Derek, ym mynwent Bethlehem.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Fiona ac Alastair a’r teulu oll yn eu colled.

Llandygái

Iona Wyn Jones
Dyma Fo, 16 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU

☎ 01248 354280

Eirlys Edwards
Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU

☎ 01248 351633

Babi newydd
Llongyfarchiadau i Mair Leverett ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach – Cara Mair – i Enid a Brian. Hyfryd fydd gweld babi o gwmpas y pentref.

Dal i wella
Dal i wella mae Liz Jones Rhif 21 ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Stoke. Gofal piau hi o hyn ymlaen, Liz.

Sefydliad y Merched Llandygai
Yng nghyfarfod mis Ionawr, penderfynodd yr aelodau mai gwell fyddai cyfarfod yn y prynhawn yn ystod y gaeaf. Felly, prynhawn Mercher, 26ain Chwefror, am 2:30, croesawodd Eirlys Mrs Antonia Eastman atom.

Athrawes wedi ymddeol yw Antonia, ac ar ôl ymddeol penderfynodd fynd i Rwanda i ddysgu plant byddar. Dysgodd y genethod hŷn i wnïo a choginio. Trin y tir oedd gwaith y mwyafrif ond nid oedd amser yn cyfrif dim iddynt – bywyd yn hamddenol a phawb yn hapus ac yn hawdd eu plesio!

Roedd Antonia wedi dod â nifer o’r crefftau i ddangos mor gywrain oedd y gwaith. Matiau bwrdd, basgedi, placiau wal pren, doliau bach bendigedig, llestri pridd a thlysau oedd wedi eu gwneud allan o bapur.

Pleser oedd gwrando ar y foneddiges afieithus yma a diolchwyd yn gynnes iddi gan Hefina.

Wedyn cawsom nifer o ymddiheuriadau absenoldeb. Darllenodd Sheila gofnodion cyfarfod Ionawr a darllenwyd Llythyr y Sir. Enillodd Llandygai y bwrsari i fynd i Denmarc ar gws ac Irene Moran yn cytuno i fynd.

Eglwys Sant Tegai

Y Garawys
Cynhaliwyd gwasanaeth bore Mercher Lludw ar y 10fed o Chwefror. Gweinyddwyd gan y Parch John Matthews a chafwyd pregeth gan y ddarllenwraig lleyg, Judith Page. Daeth aelodau o eglwysi eraill i gyd-addoli ac i ddathlu dechrau cyfnod y Garawys.

Yn yr un modd mae criw o eglwysi Bro Ogwen yn mynychu cyfarfod wythnosol yn Eglwys Gelli Tregarth i astudio a thrafod cynnwys llyfryn newydd “Gweddio’r Cerfluniau”. Awdur y llyfryn yw’r Esgob Andrew John ac fe’i cyhoeddwyd gan Esgobaeth Bangor. Mae’n gyfle i astudio lluniau o gerfluniau cyfoes sydd i’w gweld mewn gwahanol eglwysi cadeiriol.

Defnyddir y cerfluniau fel sbardun i fyfyrio ar ystyr cyfnod y Garawys. Arweinir y drafodaeth gan y Tîm Gweinidogaethol.

Newid amseroedd gwasanaethau Sant Tegai



O fis Mawrth ymlaen bydd amseriad y gwasanaethau 9.45 fore Sul yn newid i 9.30.

Gwneir hyn i sicrhau mwy o amser i’r Ficer neu ddarllenwr lleyg i gymdeithasu gyda’r gynulleidfa cyn symud i’r gwasanaeth mewn eglwys arall. Bydd y newid yma ar y Sul cyntaf a’r pedwerydd Sul yn y mis. Bydd y gwasanaethau ar y Suliau eraill yn aros am 11 o’r gloch.

Cinio “Nadolig” yn y Split Willow Llanfairfechan
Diolch i Catrin Hobson ac eraill o eglwys St Cross am drefnu’r cinio “Nadolig” ardderchog yn y Split Willow ar Chwefror y 5ed. Daeth nifer o eglwys Sant Tegai i fwynhau’r achlysur.

Gwasanaethau’r Pasg 2016 yn Eglwys Sant Tegai
Ar ddydd Gwener y Groglith, Mawrth 25ain, ceir y daith gerdded o Sant Tegai Llandygai i St Cross Talybont i dystiolaethu i’n ffydd Gristnogol. Bydd y daith yn cychwyn am 9.30 y bore o Eglwys Sant Tegai Llandygai. Cynhelir Cymun y Pasg am 10 o’r gloch y bore ar ddydd Sul Mawrth 27ain. Croeso cynnes i chi ymuno â ni i ddathlu uchafbwynt y flwyddyn Gristnogol!

Cyn y gwasanaeth yma, mae cyfle i addoli ar doriad gwawr am 6.40 y bore yn y maes parcio ar lan Llyn Ogwen o dan arweiniad y Barch Christina McCrea.

Dymuniadau gorau
Anfonwn ein dymuniadau gorau at aelodau y gynulleidfa sydd yn sâl neu yn disgwyl triniaeth. Cyfarchion y Pasg i bawb!

Glasingfryn Caerhun

Marred Glyn Jones
2 Stryd Fawr, Glasingfryn, Bangor, LL57 4UP

☎ 01248 351067

marred567@btinternet.com

Newyddion trist
Anfonwn ein cydymdeimlad at Ann Williams, Bro Infryn. Bu farw chwaer Ann, sef Olive a oedd yn byw ym Methesda.

Sefydliad y Merched
Llywydd ein cyfarfod nos Fercher 10fed o Chwefror oedd Dr Ann Illsley. Clywsom fod un o’n haelodau, Mrs Elsie Oswald Jones, yn bur wael yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion cynnes iawn at Elsie a thrist oedd clywed am ei gwaeledd.

Cawsom ein hatgoffa am noson y 16eg Fehefin pan fyddwn yn mynd i weld The Sound of Music yn Llandudno.

Yn ein cyfarfod ym mis Mawrth byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi – cofiwch ddod yn gynt!

Ein gŵr gwadd oedd ein ffrind, yr amryddawn Mr Norman Evans o Niwbwrch. Waw! Mae Norman mor artistig yn ei waith o osod blodau ac yn naturiol dros ben yn ei gyflwyniad. Bu trefn y noson yn hynod gartrefol a phawb yn cael holi a sgwrsio yn hamddenol braf.

Paratowyd y banad gan Ingrid ac Elizabeth. Rhoddwyd y raffl gan Sarah. Diolchwyd gan Mair. Yn wir, mi roedden ni wedi mwynhau noson werth chweil!

Rhiwlas

Iona Jones
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas

☎ 01248 355336

Clwb Rhiwen
Cyfarfod Chwefror 10. Cawsom de crempog ac Ann oedd yn gyfrifol am y crempogau a blasus iawn oeddent hefyd. Bu un neu ddwy yn ddigon mentrus i’w taflu i’r awyr a llwyddo i’w dal hefyd! Diolch i Ann a Frances am y baned yn ogystal.

Buom yn trafod Gwarchod y Gymdogaeth ac mae’n debyg fod dwy ardal yn y pentref eisoes yn rhan o’r cynllun. Nid yw’r cynllun yn bodoli’n unig i leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol – mae hefyd yn ymwneud â chael cymunedau’n fwy diogel a hyrwyddo perthynas dda rhwng cymdogion er mwyn ceisio gwneud yr ardal yn le gwell i fyw i bawb. Os oes gennych ddiddordeb yn y cynllun ac yn dymuno bod yn rhan ohono yna gellir cael mwy o wybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru. O fod yn warchodwr yna gellir cael gwybodaeth am droseddau sydd ar waith yng Ngogledd Cymru drwy OWL (Online Watch Link). Eto am fwy o wybodaeth cysyllter â’r Heddlu.

Cyfarfod Chwefror 24. Cawsom bnawn difyr iawn yng nghwmni Myra, un o’n haelodau. Cafodd brentisiaeth mewn becws yng Nghaernarfon ac yn arbenigo mewn teisennau. Roedd am ddangos inni pa ddanteithion y gellid eu gwneud â chrwst pwff, y math o grwst roedd llawer ohonom yn gyndyn o’i ddefnyddio. Cawsom gyfle i wneud cyrn hufen a rhain yn sicr oedd y ffefrynnau! Roedd Myra

parhad ar y dudalen nesaf...

parhad o dudalen 10, Rhiwlas

yn amlwg yn hynod o brofiadol ac ar yr un pryd yn barod i’n helpu ninnau. Cawsom flasu teisennau brau hefyd a diolch iddi am wneud yr holl baratoi cyn dod atom. Jean oedd yn gyfrifol am y baned a Gareth, Ann a Myra enillodd y raffl.

Diolchiadau

Y mae Irene a Tecwyn, brawd a chwaer y ddiweddar Megan Hughes, Lôn Plas am ddiolch i aelodau’r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael tuag at Ambiwllans Awyr Cymru. Diolch hefyd i’r Parch Dafydd Coetmor Williams ac i’r ymgymwrwr, Mr John Turner.

Y mae Mrs Eunice Jones, Llethrau, Caeau Gleision, am ddiolch am y galwadau, cardiau a’r caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati wedi ei damwain cyn y Nadolig. Diolch i aelodau Côr y Penrhyn am eu ymholiadau cyson ac i Donna am ei chymwynasau.

Cartref newydd

Y mae Sioned a Gwydion wedi symud i 13 Bro Rhiwen ers rhai misoedd bellach a dymunir yn dda iddynt yn eu cartref newydd. Un o Mynydd Llandegai yw Sioned a Gwydion o Rhostryfan.

Brysiwch Wella

Y mae Mrs Carol Davies, 12 Caeau Gleision wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau iddi. Yn yr un modd dymunwn yn dda i’r rhai sydd heb fod yn dda yn ddiweddar a sydd ar y funud yn gaeth i’r tŷ.

Penblwydd arbennig

Yn ddiweddar y mae Sam, 12 Hafod Lon wedi cael ei benblwydd yn 18 oed. Gobeithio i ti fwynhau’r dathliadau, a phob hwyl i ti hefyd gyda’r arholiadau lefel A.

Bu dathlu hefyd yn 19 Caeau Gleision. Roedd Richard Williams yn 60 oed, pob dymuniad da iti.

Casglu nwyddau i Siop Ymchwil Cancr, Bangor

Y mae Ryan Ninnnes, Bronnydd yn gweithio yn y siop elusen uchod ac yn awyddus i gael nwyddau i’w gwerthu yno. Fe fydd yn y Neuadd Dydd Gwener a Dydd Sadwrn Mawrth 18 ac 19 o 10 y bore tan 3 y prynhawn i dderbyn un rhyw beth y dymunwch ei roi i’w werthu yn y siop. Fe fydd yn ddiolchgar iawn am eich cyfraniadau.

Cydymdeimlo

Y mae Mrs Myra Jones wedi colli

ei chyfneither, Gwladys a oedd yn byw yn yr Amwythig, roedd y ddau dad yn frodyr ac yn hanu o Pentir.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Cadi ac Elfyn, Cae Glas, ar enedigaeth merch fach, Nel Iolen, wyres i Carys a Cynrig Hughes, Rallt Uchaf a gorwyres i Mrs Nancy Thomas, Bethesda. Fe fydd ei dau gefnder, Cian a Math yn sicr o’i dysgu i chwarae pêl-droed – a taid debyg!

Merched y Wawr Rhiwlas

Llywydd cyfarfod Mis Chwefror oedd Annes ac fe dderbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dilys. Cydymdeimlwyd â Linda, bu farw ei mam dros gyfnod y Nadolig. Collwyd aelod ffyddlon pan fu farw Megan Hughes, Lôn Plas a hefyd bu farw Elspeth Mitcheson a fu’n aelod gyda ni yn y gorffennol ac rydym yn cydymdeimlo â’r ddau deulu. Ar nodyn hapusach llongyfarchwyd Gwyn, mab Linda a Melfyn ar ei ddyweddiad â Bronwyn, mae’r ddau’n byw yn Vancouver, Canada. Cawsom y manylion am Ŵyl y 5 Rhanbarth ac am gystadlaethau yr Ŵyl Fai. Roeddem wedi trafod “Y Caban” ar safle Pontio ac am fynegi ein siom a’n hanfodlonrwydd gyda’i bresenoldeb yno.

Croesawyd ein gŵr gwadd yr Athro Deri Tomos atom a Megan ei wraig hefyd. Mae’n athro Biocemeg Ffisegol ym Mhrifysgol Bangor. Mae’n ymestyn defnydd y Gymraeg mewn gwyddoniaeth, ac felly ymestyn diddordeb Cymry Cymraeg mewn gwyddoniaeth. Pan yn trafod ei bwnc ar y cyfryngau mae’n llwyddo i egluro pynciau dyrys mewn ffordd y gallwn eu deall. Testun ei sgwrs oedd “Ymateb i Liwiau” a dechreuodd gyda’r frawddeg hon, Cafodd Owain Meilir Grëyr Glas I Frecwast. Pam y frawddeg yma tybed? Wel ia siŵr, mnemonig i’n helpu i gofio lliwiau’r enfys, a trafodwyd yn fanwl beth ydy lliwiau, sut yr ydym yn gweld lliw a’r modd y mae byd natur yn gwneud defnydd o bob math o liwiau. Cawsom noson ddifyr ac addysgiadol a Bet a ddiolchodd ar ein rhan. Gwen a Helen oedd yn gyfrifol am y baned.

Mynydd Llandygái

Theta Owen

Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái

☎ 600744

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Mrs. Barbara Roberts sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Da clywed ei bod gartref o’r ysbyty erbyn hyn. Gobeithio eich bod yn teimlo dipyn yn well. Mae Mrs. Megan Parry newydd ddod gartref o Ysbyty Gwynedd. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn anfon ein cyfarchion atoch gan obeithio eich bod yn teimlo ychydig yn well erbyn hyn.

Gwaeledd

Dydi Mr. Selwyn Evans ddim wedi bod yn rhy dda ei iechyd. Gobeithio eich bod yn teimlo’n well. Ein cofion atoch!

Da gweld fod y dydd yn ymestyn! Cofiwch bod angen troi’r clociau ymlaen ddiwedd y mis yma!

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen)

44 Bro Syr Ifor, Tregarth

☎ 600192

Angharad Williams

23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth

☎ 601544

Cwlb 100 Canolfan Tregarth

27	Sulwen Jones	£15
54	Siân Beidas	£10
34	Olwen Jones	£5

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Mawrth 20

Sul y Blodau, Boreol Weddi

Mawrth 27

Cymun Pasg

Ebrill 3

Boreol Weddi

Ebrill 10

Cymun Bendigaid

Ebrill 17

Boreol Weddi

Gwasanaethau am 9:30 heblaw bore’r Pasg sydd am 9:00

Gweler hysbysfwrdd yr Eglwys am wasanaethau’r wythnos cyn y Pasg.

Mae ciniawau’r Garawys wedi bod yn llwyddiannus.

Diolch i bawb sydd wedi cefnogi.

Dymunwn Basg hapus i bawb yn y pentre’.

Eglwys St. Ann a St. Mair

Mawrth 20: 9.45 Sul y Blodau - Boreol Weddi **Mawrth 24:** 6 y.h Dydd Iau Cablyd - Eglwys St. Cedol, Pentir **Mawrth 25:** 2.y.h. Dydd Gwener y Groglith.

Mawrth 27: 9.45 Sul y Pasg - Cymun Bendigaid **Ebrill 3:** 9.45 Gwasanaeth Teuluol **Ebrill 10:** 9.45 Cymun Bendigaid **Ebrill 17:** 9.45 Boreol Weddi. Estynnwn groeso cynnes i chwi oll ymuno a ni yn ein gwasanaethau dros Ŵyl y Pasg. Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun cartref dros yr Ŵyl cysylltwch ag un o’r wardeiniaid - Peter Price (601199) neu Janet Williams (600434)

Mae nifer o’n cyfeillion yn sâl ar hyn o bryd. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi oll, gan obeithio eich gweld yn fuan iawn yn ein plith. Brysiwch wella!

Merched y Wawr Tregarth

Wedi seibiant dros y ‘Dolig, pleser oedd cael cyfarfod ein cydaelodau Nos Lun, Chwefror 1, yn Festri Capel Shiloh. Daeth llond y Festri ynghyd, a rhoddwyd croeso gan y llywydd, Margaret Jones, Cae Drain. Braf iawn oedd cael croesawu’n ôl un o’r aelodau sydd wedi bod yn absennol oherwydd salwch, sef Nesta Williams, Tal y Cae gynt. Llongyfarchwyd Elinor Holland sydd wedi cael y fraint o ddod yn hen nain, a dymunwyd pen-blwydd hapus i ddwy o’r aelodau, sef Val Heyward a Helena Hughes, a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Atgoffwyd pawb o’r Cinio Gwyl Dewi sydd i’w gynnal yng Nghaffi Coed y Brenin ar Fawrth 7. Pleser oedd cael rhoi croeso cynnes i siaradwr y noson, sef Ioan Doyle, y dringwr, ffermwr, saer maen, cneifiwr, dyn busnes, a chyfathrebwr heb ei ail, ac yntau ond yn 26 mlwydd oed!! Gyda naturioldeb a gonestrwydd, bu’n sgwrsio am ei fywyd, a pham y datblygodd y cariad mawr sydd ganddo at y gamp o

parhad ar y dudalen nesaf...

ddringo. Magwyd ef ar fferm Tyddyn Du yn y Gerlan, ac ‘roedd y mynyddoedd yn atynfa o’r cychwyn cyntaf – Ysgolion Du a Chwm Pen Llafar. Ymunodd â Chlwb Mynydda Bethesda yn 13 oed, ond ‘roedd arno eisiau dringo mynyddoedd ac nid cerdded mynyddoedd fel gweddill y Clwb. Drwy gyfarfod ei fentor Mills cafodd gyfle i wireddu ei ddymuniad, ac mewn ychydig amser ‘roedd wedi dysgu’r sgiliau hanfodol ac wedi saethu drwy’r graddau o fod yn ddringwr abl ac arbennig o dalentog. Dringwr oedd o eisiau bod yn 16 oed a dim arall! Dechreuodd gystadlu yn y byd dringo a chafodd gytundeb tair blynedd gyda chwmmi teledu Cwmni Da o Gaernarfon. Agorodd hyn y drysau iddo fedru crwydro’r byd yn cystadlu, gan ddringo rhai o greigiau anoddaf y byd. Ond ‘roedd y tir yn dal i’w ddenu. Adref oedd o am ddod, i ffarmio, ac fe gychwynnodd drwy fagu oen llywaeth, a’r oen hwnnw yn mynd o un i ddegau o ŵyn a defaid. Sefydlodd fusnes gwerthu cig oen, ac fe’i gwahoddwyd gan Gwmni Da i ffilmio ‘Blwyddyn y Bugail’. Gwelsom ef ar y teledu hefyd yn Sioe Amaethyddol Llanelwedd, yn cyflwyno yn naturiol a deheuig. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf cafodd y fraint o fynd i Batagonia i ddringo gydag Eric Jones, y dringwr profiadol o Dremadog, ac ‘roedd y profiad o fod yno yn anhygoel. Beth nesa i Ioan? Mae ei fryd ar ffermio, a dymunwn y gorau iddo i’r dyfodol. ‘Roedd yn fraint ei glywed yn sgwrsio’n braf am ei fywyd, a hynny mewn ffordd mor annwyl a gyda Chymraeg mor safonol. Talodd deyrnged i’w fam, Catrin, sydd wedi’i gefnogi ac wedi gadael iddo ddilyn ei freuddwydion ym myd dringo er gwaethaf y peryglon a wynebai. Diolchwyd i Ioan am noson wirioneddol wych gan Janet Jones, a pharatowyd paned gan Buddug, Ena a Dilys. Diolchwyd hefyd i Jên am y wledd o deisennau ar gyfer pawb.

Capel Shiloh

Gwasanaethau am yr wythnosau nesaf
Oedfa am 5.00 oni nodir yn wahanol.

Mawrth 20 Sul y Blodau Oedfa Deulu dan ofal ieuenctid, rhieni a Delyth Wyn Davies am 10.30
Mawrth 27 Eric Jones, Bangor
Ebrill 3 Dr Jennie Hurd
Ebrill 10 Gwynfor Williams, Caernarfon
Ebrill 17 Glyn Owen, Llanwnda

9BACH A CHYFEILLION YN PERFFORMIO SIOE ARBENNIG I DDATHLU GORFFENNOL A PHRESENNOL YR ARDAL

Mae 9Bach wedi cyhoeddi perfformiad yn Pontio, canolfan gelfyddydau ac arloesi newydd Bangor, nos Fawrth, 19 Ebrill a fydd yn dwyn perfformwyr ac artistiaid lleol ynghyd i ddathlu Dyffryn Ogwen, gan gydnabod gorffennol chwarelyddol yr ardal a’r harddwch sydd o’i chwmpas, gan edrych ar yr un pryd ar sut y gall Bethesda heddiw ffurfio ei hunaniaeth ei hun, ar gyfer heddiw a’r dyfodol, a beth mae’n ei olygu i fyw yno.

Yn ymuno â 9Bach ar y noson, bydd y gantores Lleuwen a Chôr y Penrhyn, a bydd lluniau'r ffotograffydd lleol Dewi Glyn a'r ddawnswraig Kate Lawrence yn ychwanegu elfen weledol gyffrous at y sioe.

Mae'r band yn ddiweddar wedi cydweithio gyda Chôr y Penrhyn ar eu perfformiad o 'Farewell' yng Ngwobrau Gwerin Radio 2 lle enillodd y band y wobr am yr albwm orau gyda 'Tincian'.

Meddai Martin Hoyland o 9Bach, "Fel rhan o Gemau Olympaidd Llundain, cawsom gyfle unigryw i berfformio MAMIAITH gyda'r Black Arm Band i lawr yn Greenwich, Llundain. Roedd hon yn sioe uchelgeisiol, weledol ac fe roddodd hynny'r awch i ni fod eisiau gwrthio'r ffiniau yn ein sioeau ein hunain lle bo hynny'n bosibl. Pan gysylltodd Pontio i ofyn inni wneud rhywbeth arbennig iawn ar gyfer y tymor agoriadol roedd yn ymddangos fel y cyfle perffaith i adeiladu ar y syniadau a archwiliwyd gyda MAMIAITH."

Mae caneuon y band wedi eu dylanwadu'n fawr gan Fethesda, cartref prif leisydd a chyfansoddwraig caneuon y band, Lisa Jên Brown. Fe'i hysbrydolwyd i ysgrifennu 'Farewell' a 'Llwybrau' ar ôl i'r hanesydd lleol, Ieuan Wyn, a fydd hefyd yn cyfrannu at y perfformiad yn Pontio, roi llyfr o gerddi'r chwarelwyr iddi.

Ychwanegodd Lisa, "Mae Bethesda a'i hanes yn gymaint rhan o fy mywyd i, a dw i'n edrych ymlaen at ddefnyddio Theatr Bryn Terfel er mwyn archwilio nid yn unig y gorffennol ond ble mae'r ardal yn mynd rŵan hefyd, sut mae'r lle wedi newid a sut mae cerddoriaeth yn esblygu fel rhan o hynny."

Bydd y perfformiad yn digwydd nos Fawrth, 19 Ebrill am 7.30pm yn Theatr Bryn Terfel. Tocynnau yn £14/£12. Mae tocynnau ar gael ar-lein www.pontio.co.uk; drwy ffonio 01248 38 28 28 neu drwy alw heibio i Ganolfan Gelfyddydau ac Arloesi Pontio, Bangor.

Ar ddechrau mis Chwefror, aeth nifer o aelodau’r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon yn Institiwt Caernarfon i enwebu un o’r ymgeiswyr ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu ym mis Mai. Wedi areithiau gan yr ymgeiswyr a chwestiynau gan yr aelodau, David Taylor (dyn busnes o Rhuthun) gafodd enwebiad Arfon. Yna, derbyniwyd cyflenwad o ail daflen Siôn

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Jones (ymgeisydd Plaid Lafur Arfon yn etholiad Cynulliad Cymru) a dechreuodd gwirfoddolwyr brwdfrydig ddosbarthu’r taflenni. Tua diwedd y mis, aeth rhai o aelodau’r gangen i Gynhadledd Plaid Lafur Cymru yn Llandudno i gymeradwyo dogfen y fforwm polisi ar gyfer maniffesto Plaid Lafur Cymru, trafod cynigion, gwrando ar areithiau gan arweinwyr, cymryd rhan mewn cyfarfodydd ymylol ac ymweld â stondinau Cynhelir bore coffi blynyddol y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes am 10 y.b. , Ebrill 9fed.

Nyth y Gân

Yn yr Ysbyty

Dim sôn am yr afon na chlywed ei sŵn
Na chlywed cyfarthiad yr un o’r hen gŵn;
Dim golwg o’r haul a fu’n harddu y lle
Na gweled y lloer a’i siapiau’n y ne’.

Mor llonydd oedd popeth ac unlliw eu gwedd
Yn creu rhyw lonyddwch a theimlad o hedd;
Mor unfurf, glinigaidd a glân oedd pob man
A’r cleifion o’m cwmpas mewn gwely yn wan.

Tra yno’n ddisymud drwy’r oriau maith
Yn gweld y meddygon a’r nyrsys ar daith,
Y synau rhyfeddaf a ddaeth i fy rhan
Wrth deimlo y galon yn curo mor wan.

Yn rhedeg o gwmpas a ffôn yn ei llaw
Â golwg bryderus roedd merch gafodd fraw,
Y peiriant anferthol a’r peipiau uwchben
A greodd sŵn rhyfedd a chynnwrf o’r nen.

Rhyw ferched bach ifanc a ddaeth yn un rhes
Yn brydlon eithriadol i gymryd fy ngwres,
A rhwymo un rhuban mawr glas am fy mraich
Gan roddi rhyw wên fach i ‘sgafnu y baich.

Yr oriau a lusgai, y naill ‘rôl y llall,
Heb unrhyw gymhlethdod a heb unrhyw wall;
Roedd yno barodrwydd i’w ganmol bob tro
O’r gwyh feddyginiaeth o dan yr un to.

Rhyw feddyg ddaeth ataf i’m gweled un dydd
A braf oedd cael siarad ag ef yno’n rhydd;
Ei sgwrs oedd mor ysgafn a’i wedd oedd mor llon,
Goleuodd y t’wyllwch oedd gynt dan fy mron.

Fel blagur fe deimlais fy hunan yn fyw
Gan fod rhywun arall ynghlwm wrth y llyw
Yn arwain y broses yn glir yn ei blaen
Gan fynd â’r problemau a’m gadael heb straen.

Gwanwyn

Mor hen yw gwên y gwanwyn – o’i gweled
Â golau mor addfwyn;
Daw’r wên â bywyd i’r ŵyn
O gydio yn y gadwyn.

Dafydd Morris

Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gangen yng Nghanolfan Cefnfaes ar nos Wener, 19 Chwefror, gyda’r Cynghorydd Dafydd Meurig yn y gadair.

Cafwyd adroddiadau derbyniol iawn gan y swyddogion yn nodi rhai o uchafbwyntiau’r flwyddyn, yn cynnwys y cyfraniad pwysig a wnaed gan y Gangen yn yr ymgyrch i ail-ethol Hywel Williams i Senedd Llundain gyda mwyafrif uwch. Derbyniwyd adroddiad gan y Trysorydd ar y sefyllfa ariannol boddhaol.

Etholwyd swyddogion ar gyfer y flwyddyn, sef:- Y Cyng. Dafydd Meurig (Cadeirydd); Dr. Paul Rowlinson (Is-gadeirydd); Mary Jones (Ysgrifennydd); Cyng. Neville Hughes (Trysorydd a Swyddog Aelodaeth); Cyng. Ann Williams (Swyddog Cysylltiadau Personol); Mrs. Ceinwen Evans (Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgyrch).

Ein siaradwr gwadd am y noson oedd Alun Ffred Jones, ein Haelod Cynulliad, a fydd yn ymddeol cyn yr etholiad sydd i’w chynnal ar 5 Mai. Mwynhawyd ei anerchiad yn fawr wrth iddo olrhain hanes ei yrfa fel Cynghorydd Cymuned, Cynghorydd Sir ac Aelod Cynulliad. Ar ddiwedd noson hynod o ddifyr yn ei gwmni, cyflwynwyd englyn o werthfawrogiad y gangen o’i wasanaeth ardderchog i ni yn Nyffryn Ogwen dros y blynyddoedd.

Dyma’r englyn a luniwyd yn arbennig gan Y Prifardd Ieuan Wyn:-

Alun Ffred Jones AC
O fro Ogwen gwerthfawrogiad – a rown
Am rym dy gyfraniad;
Hyglyw wyt o blaid ein gwlad,
A’n hawliau yw dy alwad.



Dafydd Meurig, Cadeirydd y Gangen, yn cyflwyno’r englyn i Alun Ffred Jones.

Chwilair Athletau Trac a Chau

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	T	X	J	U
I	S	V	S	R	H	D	E	I	M	G	V	H	M	D	A	W	H	U	Z
M	X	V	T	A	H	D	E	D	R	P	N	A	P	F	A	U	Q	U	S
O	F	R	P	A	Y	E	Q	C	E	A	Z	G	L	R	H	H	C	U	M
W	N	O	Y	R	F	I	D	N	A	A	S	U	S	T	Z	U	T	F	D
X	U	N	P	W	R	L	T	E	H	T	R	G	R	C	Q	H	W	E	H
O	Y	E	E	E	G	A	U	E	G	G	H	E	L	O	M	D	H	E	P
T	T	C	B	G	T	B	C	R	W	F	H	L	U	W	E	U	J	P	L
T	M	I	V	H	S	V	D	A	M	P	F	C	O	D	Y	B	B	F	R
N	F	O	L	G	J	I	Y	V	A	O	I	O	D	N	I	D	R	R	X
Y	I	O	M	H	T	W	D	S	T	T	R	R	R	O	S	K	I	O	P
L	N	W	R	C	F	M	O	R	N	K	E	T	C	D	B	O	R	C	X
O	V	R	Y	F	H	F	S	I	U	G	T	M	H	R	D	E	F	Y	J
B	D	Z	O	H	F	B	R	C	S	L	W	O	S	W	C	R	A	I	X
D	N	N	I	S	L	B	X	A	J	J	F	M	B	W	Y	T	E	X	M
I	D	X	A	K	S	F	R	U	P	C	Q	A	Y	O	I	L	L	F	E
A	R	R	Z	Q	R	O	C	T	D	G	W	S	T	L	Z	E	B	E	A
N	J	G	Y	L	H	P	I	R	D	D	I	A	N	K	J	C	L	N	L
R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S	V
T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z	H	K	V

Yn y chwilair mis yma, yn ymddangos mae enw deuddeg gwahanol math o ddisgyblaeth mewn

ATHLETAU TRAC A CHAE

Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. Fel y gwelwch yn y cliw, mae mwy na un gair yn yr ateb. (Ras Ffos a Pherth), mae nifer o’r atebion yn debyg. A oes modd i chwi ddod o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Mawrth 30 . Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Roeddwn wedi trio eich cyfarwyddo gyda’r cliw mis diwethaf fod rhai o’r atebion yn hirach na roeddynt yn ymweld, ond yn anffodus dim ond rhai ohonoch dalodd sylw. Felly byddwch yn ofalus gyda’r atebion y mis yma. Diolch hefyd i rai ohonoch a ddywedodd eu bod wedi mwynhau’r erthygl am y Carneddi, ac am fy atgoffa o un neu ddau o drigolion eraill roeddwn wedi anghofio amdanynt. Dyma atebion Chwefror:- Athletau; Cleddyfau; Criced; Golff; Hoci Iâ; Nofio; Paffio; Pêl-droed; Pêl-fasged; Reslo; Rygbi; Seiclo. Dyma enwau’r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Roberts, Ynys Môn; Mair Jones, Ffordd Bangor, Bethesda; Fflur Puw, Ystâd Coetmor, Bethesda; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Doris Shaw, Bangor; Gwilym a Barbara Owen, Bethesda.

Enillydd Chwefror oedd:- **Elizabeth Buckley**, 32 Maes Ogwen, Tregarth, LL57 4NG.

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

Yn ei gyfarfod misol ym mis Chwefror clywodd y Cyngor fod Ynni Ogwen ar fin lansio’r prosiect ynni hydro, gan roi cyfle i bobl y Dyffryn fuddsoddi yn y fenter gymunedol gyffrous hon.

Mae gan y Cyngor gronfa i roi grantiau i fudiadau lleol a phenderfynwyd rhoi arian i’r mudiadau canlynol ar gyfer 2015-16: Llais

Ogwan, Eisteddfod Dyffryn Ogwen, yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Cyngor ar Bopeth, Brownies Nant Ffrancon, Ambiwylans Awyr Cymru, Clwb Llanllechid, Clwb Cymdeithasol Gerlan, Clwb Camera Dyffryn Ogwen, Theatr Bara Caws, Eglwys Crist Glanogwen (at gynnal a chadw’r fynwent), Cylch Meithrin Cefnfaes, Ysgol Feithrin Llanllechid, Gŵyl Afon Ogwen a Chlwb Criced a Bowlio Bethesda. Os hoffai mudiadau wneud cais am grant ar gyfer

2016-17, dylent gysylltu â’r Clerc, gan gyflwyno copi o’u mantolen ariannol. Mynegwyd pryder am blant ifanc sydd ar eu beiciau gyda’r nos, heb oleuadau na chloch. Mae’n anghyfreithlon reidio beic heb olau yn y nos ac mae’n beryglus i’r plant eu hunain ac i bobl sy’n cerdded llwybrau tywyll ac yn methu eu gweld na’u clywed. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn am gymorth i gael y neges allan i’r plant am

parhad ar y dudalen nesaf...

parhad Cyngor Cymuned
Bethesda

bwysigrwydd gosod goleuadau a chlychau ar eu beics.
Mae dyfodol hirdymor Canolfan Cefnfaes yn dal i beri pryder ond roedd y Cyngor yn falch o glywed na fydd unrhyw newid cyn Ebrill 2017, sy'n rhoi mwy o amser i ystyried beth all y Cyngor ei wneud i geisio cadw'r adnodd pwysig hwn.
Yn ystod yr haf bydd giatiau Llys Dafydd yn agored trwy'r nos fel y gall pawb fwynhau'r cyfleuster gyda'r hwyr. Hyderir na fydd unrhyw ddifrod neu bydd angen ailystyried a chau'r giatiau unwaith eto.
Trafodwyd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y drafft ar hyn o bryd gyda'r nod o gyflwyno bil i'r Cynulliad Cenedlaethol yn yr hydref. Prif amcan y bil yw lleihau nifer y Cynghorau Sir ond mae'n cynnig newidiadau pwysig i gynghorau tref a chymuned hefyd. Bu dau aelod o Gyngor Bethesda mewn digwyddiad ymgynghori ar y bil yn gynharach yn y mis.

Côr y Penrhyn

Côr prysuraf Cymru yn recordio!
Cyda'r gwanwyn yn nesáu mae rhaglen gyhoeddiadau'r côr yn prysur lenwi. Ym Mis Mawrth mae cyngherddau yn Henllys a recordio ym Mhenmaenmawr yn digwydd. Alastair James o Lanfairfechan sy'n cynhyrchu record ac wedi gofyn i'r côr fod yn gefn iddo yn un o'i ganeuon. Mae'r côr wedi gwahodd Alistair i berfformio gyda ni yn Neuadd y Dref, Llanfairfechan sawl tro yn y gorffennol ac mae bob amser yn canu caneuon o'i waith ei hun sy'n dod â ffresni a gwreiddioldeb i'w berfformiadau.
Tocynnau Noson Lawen
Wedyn ym Mis Ebrill byddwn yn cymryd rhan mewn Noson Lawen gyda Rhys Meirion, y tenor enwog, ynghyd â'r comediwr Eilir Jones, (Ffarmwr Ffowc), Jonathan Davies, Gwen Elin, Gwyn Owen, Magi Tudur a'r Tri Tennar. Y dyddiad ydy Nos Iau, 7 Ebrill ac mae'r tocynnau ar gael yn Pontio am £5. Cofiwch fynnu eich tocynnau rhag blaen. Bydd y noson yn cael ei recordio

ar gyfer S4C.
9Bach
Yn yr un mis byddwn yn perfformio unwaith eto gyda 9Bach, y grŵp gwerin o'r Gerlan a wnaed yn enwog yn dilyn eu buddugoliaeth yng nghystadleuaeth grwpiau gwerin Radio 2. "Llechi" yw enw'r perfformiad ac fe'i gwelir yn Theatr Bryn Terfel, Pontio, Bangor ar 19 Ebrill gyda Lleuwen Steffan, Kate Lawrence, Dewi Glyn a Ieuan Wyn. Cofiwch archebu eich tocynnau.
Swae Fawr Llandudno
Tua diwedd y mis bydd y côr yn perfformio yn y sioe fawr Fictoraidd sy'n digwydd yn flynyddol yn Llandudno. Y llynedd roedd perfformiad y côr yn digwydd ar y prom ond roedd y tywydd yn oer ac yn wlyb. Hei lwc am well tywydd eleni.

CÔR Y
PENRHYN
CYMERIADAU'R
CÔR



Be' ydy dy enw llawn?
Elfyn Bullock.
Oed? – 41.
Gwaith?
Gweithio i Scottish Power.
Lle wyt ti'n byw?
Ar Stryd Fawr Bethesda.
Un o lle wyt ti'n wreiddiol?
Bethesda
Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?
Hwyllog, tynnwr coes ac un sy'n byw bywyd i'r eitha'.
Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?
Ers tua 1991.
Pa lais wyt ti?
Ail fas.
Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?
Hoffi canu a chael treulio amser efo Dad sydd hefyd yn canu yn y côr.
Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?
Yr eneth ga'dd ei gwrthod.
Pwy ydy dy hoff

ganwr/gantores?
Frank Sinatra.
Beth ydy dy farn di am ganu pop?
Dwi yn hoffi pob math o gerddoriaeth
Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r Côr?
Taith ddiwedddara y côr i Efrog Newydd

Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?
Cadw'n heini a hefyd gwneud rhyw fymryn o actio.
Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?
Cymryd rhan yn y Mil o Leisiau yn yr Albert Hall eto.

Marchnad Ogwen

Erbyn hyn, mae Stondinau newydd wedi ymuno â Marchnad Ogwen ac fe awn a chi am dro o gwmpas y Farchnad bob mis er mwyn i chi ddod i adnabod pawb.
Y Stondin Wyau
Mae un Stondin yn arbennig wedi ymgartrefu yn hynod o dda gyda ni - sef y Stondin Wyau. Mae rheswm da dros hynny a dweud y gwir - hogan o Rachub sydd wrth y llyw! Talwrn, Ynys Môn ydi cartref Edwina Williams bellach ac mae hi a'i gŵr Emlyn yn gwerthu wyau yn eang ym Môn a thu hwnt, ond mae gwreiddiau Edwina yn sicr yn Nyffryn Ogwen! Mae'r ieir sy'n dodwy'r wyau yma wedi pigo a chrafu allan ac felly cewch wyau gwerth chweil. Mae gan Edwina wyau chwiad ar werth - sy'n arbennig o dda am wneud cacen spwnj medda Delyth 'Cegin Brysur' - a hefyd wyau sofliar (quail). Felly brecwast gydag wy ffres lleol o Gymru - beth sy well!



Edwina Williams

Newyddion y Farchnad
Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynnyddol ym mis Chwefror ac fe etholwyd Pwyllgor a Swyddogion 2016.
Llywydd Anrhydeddus - Chris Jones, Tatws Bryn Cadeirydd - Lynda Pritchard, Crefftau Howget Is-gadeirydd - Owain Evans, Neuadd Ogwen Ysgrifennydd - Janet Jones, Cardiau Maes Melyn Trysorydd - Angharad Huws, Crefftau Nodwydd Rheolwr Stondinau - Delyth Jeffreys, Cegin Brysur Aelod Pwyllgor - Abbie Edwards, Llwy Bren

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd sydd yng ngofal y Stondin Elusen mis Ebrill. Y nesaf sy'n rhydd yw Ionawr 2017.
Susan Jones, gynt o Fethesda sydd gyda'r Stondin 'Un Tro' yn gwerthu ei gemwaith. Yr un nesaf sy'n rhydd yw mis Gorffennaf.

Mae dwy Farchnad ym mis Ebrill, sef yr ail ddydd Sadwrn fel arfer ac un nos Fercher, Ebrill 20fed o 5 - 8pm.

Mae gwybodaeth gyfredol a rhestr Stondinau'r Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar Facebook a Twitter

Croeso cynnes i gefnogi eich ardal leol, i gymdeithasu a mwynhau!

Gair o'r Dosbarth

Ysgol Dyffryn Ogwen

Enwebu Athrawes

Llongyfarchiadau mawr i Ms Lynne Jones, Pennaeth yr Adran Saesneg, am ennill gwobr fel athrawes ysbrydoledig gan Brifysgol Rydychen. Bob blwyddyn mae Prifysgol Rhydychen yn gofyn i fyfyrwyr sydd ar eu blwyddyn gyntaf i enwebu athro neu athrawes oedd wedi eu hysbrydoli tra yn yr ysgol, a chafodd Ms Lynne Jones ei henwebu gan Bethan Hughes a oedd yn fyfyrwr yn y Chweched Dosbarth llynedd ac sydd bellach yn astudio Saesneg yn Rhydychen. Penderfynodd y Brifysgol fod Ms Lynne Jones yn un o 10 o athrawon buddugol a bydd yn mynd i Rydychen i dderbyn ei gwobr mewn seremoni ddechrau mis Mai. Fel paratoad ar gyfer y seremoni bu criw ffilmio o Rydychen yn yr ysgol yn ddiweddar yn ffilmio Ms Jones a'r pennaeth Mr Alun Llwyd. Mae'r ysgol bob amser yn ymfalchïo yn llwyddiant y disgyblion a'r staff.

Eisteddfodau'r Urdd

Wrth i'r Llais fynd i'r wasg mae Eisteddfod Sir Eryri dan 15 wedi ei chynnal a chafwyd nifer o lwyddiannau o'r ysgol:

Cyntaf- Parti Bechgyn

Gwydion Rhys – Unawd Llinynnol

Luned Elfyn ac Elis Evans – Ymgom

Ail - Ensemble – Gwydion Rhys, Thalia Lichtenstein a Beca Nia

Ymgom – Begw Evans ac Ela Oliver

Trydydd - Côr

Erbyn i'r *Llais* ddod allan bydd y steddfod sir dros 15 wedi ei chynnal yn Ysgol Dyffryn Ogwen, a dymunwn yn dda i'r Côr Cerdd Dant.

Masnach Deg

I gyd-fynd gyda phythefnos Masnach Deg cynhaliwyd nifer o wasanaethau yn yr ysgol yn sôn am hyn a bu rhai o'r Chweched Dosbarth yn cynnal stondin Masnach Deg gan werthu nifer o nwyddau gwahanol.

Rygbi dan 13

Ysgol John Bright 0 - 38 Ysgol Dyffryn Ogwen
Ceisiau gan Huw Davies x 2, Sean Buchanan, Daniel Hughes, Louis Reviles, Tomos Hughes, gyda Ryan Williams yn trosi 4 cic.

Ysgol Abercaseg



Coginio Cacennau Cri

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Gwnaeth bawb ymdrech arbennig ar Ddydd Gŵyl Dewi i ddod i'r ysgol mewn dillad traddodiadol neu gyfoes Cymreig. Bu'r plant ieuengaf gael eu diddanu yn y neuadd gan gwmni'r Frân Wen tra bu Blynnyddoedd 1 a 2 yn brysur yn gwneud cacennau cri, cyfansoddi rapiau a chael siawns ar ychydig o ddawnsio gwerin – diwrnod llawn hwyl i bawb heb anghofio neges pwysig ein Nawddsant drwy gydol y dydd, sef gwneud y pethau bychain i helpu'n gilydd

Gorymdaith Gŵyl Dewi

Yn ffodus eleni cafwyd tywydd braf ar gyfer yr orymdaith leol ac ymunodd rhai o'n disgyblion a'u rhieni yn yr hwyl. Yna bu i

ddisgyblion Blynnyddoedd 1 a 2 ganu caneuon traddodiadol am Dewi Sant, heb anghofio'r hen ffefryn, 'Sosban Fach', ar lwyfan Neuadd Ogwen. Roedd y cyngerdd yma'n glo teilwng ar brynhawn o ddathlu Cymreictod – da iawn chi blant.

Dathlu Diwrnod y Llyfr

Roedd Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr yn wledd i'r llygaid yn yr ysgol wrth i bawb wisgo i fyny fel eu hoff gymeriad o lyfr neu gerdd. Cafodd y plant gyfle yn ystod y dydd i drafod eu hoff lyfrau gan egluro'r rhesymeg dros eu dewis. Uchafbwynt y diwrnod i blant hynaf yr ysgol oedd cael mynd i lawr i'r dosbarthiadau meithrin a derbyn i ddarllen straeon yr oeddent hwy eu hunain wedi eu hysgrifennu i'r disgyblion. Does ond gobeithio bod ymateb brwdfrydig y disgyblion yma wedi ysgogi y disgyblion hŷn i ystyried gyrfa fel awduron llyfrau plant yn y Gymraeg!!

Ymwelydd arbennig

Fel rhan o waith thema 'Ein pentref ni', daeth Mr Neville Hughes i'r ysgol i ateb cwestiynau a rhannu ei atgofion o fywyd plentyn yn yr ardal ers talwm. Fe ddysgodd y plant lawer o ffeithiau diddorol am y cyfnod a mwynhaodd bawb ymuno gyda Mr Hughes yn canu hwiangerddi traddodiadol. Diolch yn fawr iawn i Mr Hughes am ddod atom i rannu ei atgofion melyn.

Diolch

Hoffem ddiolch o waelod calon i'n cyfeillion yn nhafarn 'Y Bull' am eu rhodd hael o £150.00 i'r ysgol. Bydd bob ceiniog o'r arian yn cael ei wario er budd y plant ac eleni bydd y 'Sgwad Syniadau' yn dewis adnoddau i brynu ar gyfer yr Ardal Tu Allan. Diolch yn fawr iawn hefyd i staff archfarchnad lleol Tesco am eu rhodd caredig o £260. Bydd yr arian yma hefyd yn hynod o ddefnyddiol ar gyfer datblygu'r Ardal Tu Allan - bydd rhestr siopa'r 'Sgwad Syniadau' yn mynd yn hirach fyth o ganlyniad i haelioni cyson busnesau lleol i'r ysgol.



Derbyn rhodd gan Tesco

Gweithdy Techniquet

Mae'r plant wedi bod yn ffodus iawn eleni i gymryd rhan mewn nifer o weithdai cwmni Techniquet yn yr ysgol a'r diweddaraf o'r rhain oedd sioe am y corff ar gyfer Blynnyddoedd 1 a 2 . Mwynhaodd bob un o'r plant ddysgu am wahanol rannau'r corff ac am ddeiet cytbwys drwy gyfrwng gweithgareddau ymarferol diddorol.

Hyfforddiant

Yn yr oes dechnolegol hon yr ydym yn byw ynddi mae'n bwysig ein bod yn gwneud y gorau o'r adnoddau addysgiadol defnyddiol sydd ar gael i'n plant ond wrth gwrs eu diogelwch hwy yw ein prif ffocws bob amser. Felly bu plant a rhieni'r ysgol yn ffodus iawn yn diweddar o dderbyn hyfforddiant a chyflwyniad am safwe Hwb+ ac e-ddiogelwch gan hyfforddwyr profiadol yn y maes.

Ysgol Bodfeurig

Cawl a Chân

Penderfynom ni, fel Cyngor Ysgol a chynrychiolwyr Siarter Iaith, fod hi'n bwysig dathlu ein Cymreictod. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn dop ar Fawrth y 1af gyda pawb yn mwynhau gwledd o ganu cyn blasu lobsgows a bara brith gan Anti Anwen. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi.

Gan Gyngor Ysgol ac Arweinyddion Siarter Iaith yr ysgol.



Pawb yn mwynhau'r Cawl a Chân

Cystadleuaeth Diogelwch y Ffyrdd

Llongyfarchiadau i dair o ddisgyblion yr ysgol am ennill cystadleuaeth i ddylunio arwyddion ffordd. Mae'r arwyddion yn annog pobl i yrru yn ddiogel heibio'r ysgol. Rydym yn edrych ymlaen i weld lluniau Freya, Lexi a Lois yn cael eu troi yn arwyddion ac yn cael eu defnyddio ger yr ysgol yn fuan!



Y dylunwyr llwyddiannus!

Gwefan

Cofiwch gadw llygaid am fwy o luniau a hanes ar ein gwefan www.ysgolbodfeurig.org ac ar twitter @YsgolBodfeurig.

Ysgol Tregarth



Dosbarth Llywelyn yn cwestiynu PC Meirion

PC Meirion Williams

Cafodd disgyblion yr ysgol sgwrs ddiddorol iawn gyda PC Meirion Williams yn ddiweddar am feddyginiaethau a chyffuriau. Braf oedd eu gweld yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i'w gwestiynau. Diolch yn fawr iawn i PC Meirion Williams am alw draw i ymweld â'r plant.

Mewn Cymeriad

Cafodd dosbarthiadau Ogwen, Ffrydlas, Tryfan a Llywelyn wledd pan ddaeth cwmni 'Mewn Cymeriad' i ymweld â'r ysgol cyn y gwyliau, y tro hwn gyda chymeriad Owain Glyndŵr. Cafodd y plant fodd i fyw yn chwarae rolau amrywiol a dysgu am yr arwr o Gymru.

Breuddwydiodd am gael annibyniaeth i Gymru, ac yn 1400 cyhoeddodd ei hun yn Dywysog Cymru. Am ddeuddeng mlynedd, arweiniodd wrthryfel yn erbyn awdurdod Lloegr yng Nghymru. Sioe ddiddorol a bywiog a roddodd bleser mawr i'r plant.

Eisteddfod Cylch yr Urdd

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Dyffryn Ogwen eleni. Roedd pob un ohonoch yn arbennig ac roeddem yn hynod falch o'ch perfformiadau. Diolch i bawb ddaeth i helpu a chefnogi ar y diwrnod.

Cyngor Ysgol

Mae'r Cyngor Ysgol yn parhau i weithio'n frwdfrydig y tymor hwn. Eisoes maent wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r Siarter Iaith a chynnal nifer o ddiwrnodau amrywiol er mwyn codi arian at elusennau amrywiol.

Ysgol Penybryn

Aml-chwaraeon

Ar brynhawn Mercher, Chwefror 3ydd daeth Lisa o Gyngor Gwynedd i gynnal sesiwn ffitrwydd gyda phlant blwyddyn 5. Bu'r plant yn rhedeg yn gyflym, 'press-ups', ymarfer ymestyn, cyd-bwysedd ac ystwythder er mwyn profi ffitrwydd. Bydd Lisa yn dychwelyd ymhen 6 wythnos i ail-brofi ffitrwydd y plant gan obeithio y bydd yn gweld datblygiad ar ôl gwneud llawer o wahanol weithgareddau.

Ditectif Mathemateg

Daeth Mr. Gwilym Evans, Techniquet atom ddydd Mawrth, Chwefror 2il i wneud gweithdy mathemateg o'r enw Maths Ditectif. Bu'r plant yn brysur yn datrys cliwiau er mwyn darganfod pwy ddwynodd miliwn o 'meicrochips' o'r labordy. Mwynhaodd y plant y sesiwn yn arw. Diolch o galon, Mr. Evans a gobeithiwn eich gweld yn fuan.

Chwalfa

Cawsom ni ym mlwyddyn 6 gyfle unigryw i wylïo'r ddrama Chwalfa gan T Rowland Hughes yn theatr Pontio ym Mangor. Amserol iawn oedd y ddrama, gan ein bod wrthi'n darllen y nofel Bwli a Bradwr gan yr awdures Brenda Wyn Jones. Cawsom wledd gan y cast anhygoel, a ddaeth â'r digwyddiad hanesyddol hwn yn fyw i bob un ohonom. Roedd yr actorion yn anhygoel, y set yn drawiadol, a'r holl gynhyrchiad yn un bythgofiadwy!

Drwg

Ar Ddydd Llun Chwefror y cyntaf aeth Blwyddyn 3 a 4 i Neuadd Ogwen i weld perfformiad o sioe bypedau Drwg gan Gwmni Theatr Bara Caws. Roedd y sioe am Rhita y cawr a oedd yn gas ac yn bwlio plant eraill, ond bu rhaid iddo newid ei ffordd er mwyn cael ffrindiau. Roedd pawb wedi mwynhau'r sioe yn fawr, yn ogystal â dysgu gwers bwysig ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i fwllis.

Diwrnod Golchi

Ar Ddydd Mercher Chwefror y 3ydd aeth dosbarth Tryfan i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i ddysgu am ddiwrnod golchi yn Oes Victoria. Roedd Anti Marged yn brysur iawn yn ei chartref yn golchi i bobl y pentref er mwyn cael arian i fwydo ei theulu - lwcus ein bod wedi mynd i'w helpu!! Cawsom y profiad o olchi'r dillad gyda doli yn y twb golchi, sgwrio y dillad oedd yn fudr iawn yn y sinc ar y bwrdd sgwrio, ac yna rhoi'r dillad trwy'r mangl i wasgu dŵr allan ohonynt cyn eu rhoi ar y lein i sychu. Roedd pawb yn cytuno bod merched wedi gweithio'n galed iawn ar ddiwrnod golchi yn Oes Victoria.



Diwrnod Golchi



Cofio Mari Jones

Mari Jones

Cafwyd cyflwyniad arbennig o dda gan ‘Mewn Cymeriad’ yn adrodd hanes Mari Jones. Mae dosbarth Carnedd wedi bod yn dysgu am hanes Mari Jones fel rhan o’u gwaith Addysg Grefyddol. Mae’n anodd credu ei bod wedi cerdded 26 milltir er mwyn prynu copi o’r Beibl Cymraeg, ond diolch ei bod hi oherwydd nawr mae pobl ar draws y byd yn gallu mwynhau straeon o’r Beibl yn eu hiaith eu hunain.

Ysgol Llanllechid

Penblwydd Hapus

Penblwydd Hapus i Anti Gillian oddi wrthym i gyd yn Ysgol Llanllechid! Mwynhewch y dathlu a’ch penblwydd arbennig! Llongyfarchiadau hefyd ar ddod yn nain i William Ellis! Cyfle arall i fagu a sbwyllo!

Diolch

Diolch i Mrs Ffion Mai Jones am dreulio cyfnod hefo ni yn Ysgol Llanllechid. Dymuniadau gorau dros yr wythnosau a’r misoedd nesaf, a cofia ddod â’r bychan i’n gweld!

Eisteddfod Cylich yr Urdd

Cafwyd eisteddfod lwyddiannus. Dyma nhw’r canlyniadau:

Enw	Cystadleuaeth	Safle
Gwenno Beech	Unawd Bl2 a Iau	1
Lois Jones	Unawd Bl 3/ 4	1
Erin Griffiths	Unawd Bl 5/ 6	2
Mari Bullock	Unawd Bl 5/ 6	3
Lois & Efa	Deuawd Bl 5/ 6	1
Parti Unsain	Parti Cain	1
Côr	Côr Ysgol Llanllechid	2
Mared Morris	Unawd Alaw Werin	2
Mari Bullock	Piano	3
Gwenno Beech	Unawd Cerdd Dant	2
Efa Glain Jones	Unawd Cerdd Dant Bl 5/6	1
Parti Cerdd Dant	Parti Ysgol Llanllechid	1
Seren Roberts	Llefaru Bl2 ac Iau	2
Chenai Chicanza	Llefaru Bl 3 / 4	2

Diolch yn fawr i Mr Huw Edward Jones, Mrs Marian Jones, Mrs Nerys Tegid, Mrs Menai Williams a Mrs Helen Williams am eu gwaith ac i Miss Elin Lloyd Griffiths am gyfeilio i’r côr.

Cyngerdd Dydd Gŵyl Ddewi yng Nghastell Penrhyn

Bu’n fraint cael rhannu llwyfan gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru yn Nghastell Penrhyn ar ddiwrnod ein nawdd sant. Diolch yn fawr i Mr a Mrs Bevan am y gwahoddiad. Bu’n brofiad bendigedig i’n



Te Bach Cymreig Dosbarth Mrs Rona Williams

Bu’r disgyblion yn brysur yn gwneud cacennau cri! Be’ well?! Cacen gri a phaned!

Capel Carmel a Thaith o Amgylch Rachub

Diolch i Mrs Helen Williams am y croeso cynnes, pan aeth dosbarth Mrs Wilson i ymweld â Chapel Carmel yn ddiweddar. Cawsant ddysgu am nodweddion y capel a`r holl weithgareddau gwahanol sydd yn cael eu cynnal yno. Cafwyd cyfle i graffu ar y Beibl mawr, sefyll yn y pulpud ac eistedd yn y sedd fawr. Y diwrnod canlynol, tro dosbarth Mrs Bethan Jones oedd hi i gael eu tywys o amgylch Rachub, gan Mrs Helen Williams. Cafwyd taith gerdded llawn hanesion, a’r disgyblion yn cael cyfle euraidd i ddysgu am eu hardal leol. Diolch i Mrs Helen Williams!

Ymweliad Prifardd

Braint oedd cael croesawu y Prifardd Ieuan Wyn at y dosbarthiadau hynaf. Bu trafod brwd ar bontydd yr ardal – eu henwau a’u lleoliadau. Dyma beth oedd addysg werth chweil; cael dysgu am yr hyn sydd wrth eu traed a dysgu am hanes, er mwyn ei gadw ar gof a chadw i’r cenedlaethau sydd i ddod. Diolch yn fawr.

Dr J. Elwyn Hughes

Braint arall oedd croesawu Dr J. Elwyn Hughes i’n plith, wrth i ni wrando’n astud ar ei anerchiad i’r disgyblion hynaf. Y testun oedd y Rhyfel Mawr a dylanwad hwnnw ar Ddyffryn Ogwen, a thrigolion yr ardal. Cafwyd gwrandawriad astud, a’r disgyblion wedi eu cyfareddu gyda’r holl hanesion difyr. Diolch o galon i chi am ddod atom ac am rannu o’ch ffynnon wybodaeth ddi-waelod.

Diwrnod y Llyfr

Cafwyd môr o liw a’r plantos i gyd yn werth eu gweld – pob un wedi gwisgo yn debyg i’w hoff gymeriad!

Ysgol Rhiwlas

Sioe Rita Gawr

Ar ddydd Mawrth, 2 Chwefror, bu oll o ddisgyblion yr ysgol ar y bws i Neuadd Ogwen i weld sioe Rita Gawr. Roedd pawb wedi mwynhau’r sioe ac wedi cael cyfle i ddysgu am hanes y cawr lleol oedd yn byw mewn ogof ar y Wyddfa.

Disgo Santes Dwynwen

Yn anffodus gohiriwyd disgo Santes Dwynwen oherwydd y tywydd garw iawn yn Rhiwlas ar y noson. Er hynny, ar nos Fercher, 24 Chwefror, cafodd y disgyblion gyfle i wisgo dillad crand a dawnsio oddi amgylch neuadd yr ysgol, nes bod pawb wedi blino’n lân, ond wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Crefftau Santes Dwynwen

Roedd cariad yn yr aer yn Rhiwlas ar 25 Ionawr oherwydd fod disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur yn pwyso a mesur fel rhan o’u gwaith mathemateg cyn mynd ati i fesur cynhwysion er mwyn coginio bisgedi siâp calonnau. Cawsant gyfle hefyd i greu a dylunio cardiau Santes Dwynwen bendigedig.

Thema Fferm Fach (CS)

Fferm fach yw thema Cyfnod Sylfaen ar gyfer y tymor hwn, byddant yn gwneud gwaith ar anifeiliaid fferm a hefyd yn cael cyfle i ddarllen y stori Iâr fach goch ymhellach.

Thema Ynni (CA 2)

Prynhawn Dydd Mercher, 24 Chwefror, roedd prysurdeb mawr oddi amgylch pentref Rhiwlas gan fod disgyblion Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn cerdded oddi amgylch y pentref, gyda Mr Davies, yn edrych ar y defnydd o ynni yn y gymuned. Gwaith ar ynni yw eu thema am yr hanner tymor hwn. Fel rhan o’r thema, hefyd, maent wedi cael y cyfle i ymweld â Mynydd Gwefru, Llanberis, ar 2 Mawrth, er mwyn dysgu am rhai o’r generaduron mwyaf pwerus sydd yno ac sy’n helpu i gynhyrchu’r holl ynni.

Sioe Tag S4C

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 gyfle i fynd i weld Sioe Jambori Tag a oedd wedi ei threfnu, mewn cydweithrediad â S4C a Siarter Iaith Gwynedd, yng Nghanolfan Tennis Arfon. Roedd y disgyblion wedi gwirioni yn cael cyfarfod â rhai o’r cymeriadau, wyneb yn wyneb, megis DJ Sal, Mari Lovegreen ac Owain Williams, cyflwynwyr Sioe Tag.

Ymweliad PC Beca

Bu PC Beca yn ymweld â’r ysgol eto y tymor hwn. Bu’n trafod pwysigrwydd cymryd gofal hefo moddion hefo’r Cyfnod Sylfaen a thrafod effaith cyffuriau ac alcohol ar y corff gyda Cyfnod Allweddol 2.

Wythnos RSPB

Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur yn arsylwi ar yr adar eto eleni ar gyfer ein prosiect blynyddol i gyd fynd ag wythnos RSPB. Cafodd y disgyblion gyfle hefyd i greu teisen adar eu hunain i fynd adref.

Ar draws

- 1 Diwedd pob blodeuyn (4)
- 4 Pla Hamelin (5)
- 7 - -- Celf; arddangosfa gelf yr Eisteddfod Genedlaethol (1,2)
- 8 “Gorau arf, arf ----” dihareb (4)
- 9 Un o anrhydeddau Gorsedd y Beirdd (4)
- 11 Nid ifanc at ei gilydd yw deiliaid y tŷ mawr yn Rhufain (7)
- 13 Hoelen dro (5)
- 14 Ond y ni yw hanner y boblogaeth (6)
- 15 Trwst a thwrw (6)
- 19 Dod ato’i hun (5)
- 21 Un o lannau Llŷn (7)
- 22 Gorffen dangos, a dechrau gofyn sut mae’n gogwyddo (4)
- 23 Mae’r un goch ar yr Wyddfa yn rhy fawr i wneud ciw-pi (4)
- 25 Rhan mewn drama (3)
- 26 Fel sôn ddwywaith wrth yr iâr am ei chôt (5)
- 27 Defnyddio dryll (5)

I lawr

- 1 Unawd Gymraeg enwog Meirion Williams am y ‘baradwys wen’ (7)
- 2 Gwneud yn fwy (7)
- 3 Deg a thrigain, ‘--- yr Addewid’ (3)
- 4 Roedd Cynan, Hedd Wyn a Crwys yn defnyddio un (6)
- 5 Swnio fel pebai’n dal, ond yn bleserus a diddorol (5)
- 6 Israeliad (4)
- 10 Roedd un o’r 4 I Lawr yn byw yma (6)
- 12 Pair Dadeni y Mabinogion (6)
- 16 Os yw Dafydd bach yn crynu, efallai y gwelwch chi ôl crïo arno (7)
- 17 Chwaraewr peldroed gorau’r byd medd rhai (7)
- 18 Byrddau’r cymun (6)
- 19 Siâp blwyddyn gyfan (4)
- 20 Yr hyn a geir wrth wneud 27 Ar Draws (5)
- 24 Elisabeth yn rhoi pres ar geffyl (3)


Atebion CHWEFROR 2016

AR DRAWS 1 Cymodi, 7 Caerdydd, 8 Sgrechian, 9 Daear, 10 Arian, 11 Triw, 12 Oriog, 15 Adnod, 16 Undod, 19 Fyny, 20 Rhelyw, 21 Edwen, 22 Benywaidd, 23 Cemegyn, 24 Eginodd

I LAWR 1 Cystadlu, 2 Morfilod, 3 Dichon, 4 Lan, 5 Oriawr, 6 Tybaco, 7 Castanwydden, 9 Diod, 13 Isalmaen, 14

Gwawrddydd, 15 Adyn, 17 Nadredd, 18 Oferedd, 20 Rhwysg, 22 Byd

Sachliain a lludw, ymddiheuro a chywilyddio – dyna sydd ar fy meddwl y mis yma! A hynny am y dryswch mawr efo grid y mis diwethaf. Roedd un llinell i lawr ac un llinell ar draws wedi diflannu’n llwyr am ryw reswm. Roeddwn wedi anfon y grid cyflawn i’w argraffu, ond gwaetha’r modd nid felly yr ymddangosodd yn y papur. Roeddwn ar feddwl diystyru’r gystadleuaeth i ddechrau, ond yr oedd cymaint ohonoch wedi mynd i’r drafferth i ail-wampio a chwblhau’r grid eich hunain fel mai annheg fyddai hynny. Y ddau ateb na chafwyd lle iddyn nhw ar y grid oedd 24 Ar Draws ‘eginodd’ ac 14 I Lawr ‘gwawrddydd’. Rhai, yn naturiol, wedi methu cwblhau un neu ddau o’r rhain. Y camgymeriadau eraill oedd ‘rhyfyg’ yn lle ‘rhwysg’, ‘genenyn’ a ‘celefyn’ yn lle ‘cemegyn’, ac ‘Iselmaen’ yn lle ‘Isalmaen’. Ond yn rhyfeddol iawn cafwyd atebion hollol gywir a chyflawn gan y canlynol : Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth, Emrys Griffiths, Rhosgadfan, Doris Shaw, Bangor, Elfed Evans, Llanllechid, Dafydd Evans,



Atebion erbyn **31 Mawrth, 2016** i ‘Croesair Mawrth’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

Penisarwaun; Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch. Da iawn am ddatrys mwy na’r atebion y tro hwn! Ond mae’r clod a’r wobr yn mynd i **Karen a Tom Williams**, 15 Henbarc, Llanllechid, Bangor LL57 3RS.

Gorymdaith Gŵyl Ddewi 2016



Cario’r Faner! (Llun: Heulwen Roberts)

Gorymdaith Gŵyl Ddewi 2016



Rhai o ddisgyblion Ysgol Abercaseg yn cymryd rhan yn y Cyngerdd yn Neuadd Ogwen (Llun: Heulwen Roberts)



Chwith: Efa wedi Gwisgo i Fyny (Llun: Heulwen Roberts).
Uchod: Gorymdeithio heibio Dol Dafydd (Llun: Emyr Roberts)

Gwirfoddolwch i Gymdeithas Eryri!

Mae'r gweithgareddau yn cynnwys cynnal a chadw llwybrau, casglu sbwriel, rheoli cynefinoedd, clirio rhododendron, gwneud arolygon o famaliaid a chyfleoedd i hyfforddi am ddim.



Mwynhau Eryri
Gwneud ffrindiau newydd

Dysgu sgiliau newydd
Rhoi rhywbeth yn ôl

Gwella eich CV
Cael hwyl!

Byddwn yn rhedeg diwrnodau gwaith cadwraeth trwy gydol y flwyddyn yn Eryri a'r cyffiniau. Croeso i bawb.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch ag Owain Thomas:
owain@snowdonia-society.org.uk
01286 685498
www.snowdonia-society.org.uk



BLYCHAU POST

gan Andre Lomozik

Cwestiwn! Pryd oedd y tro diwethaf i chi anfon llythyr? Y dyddiau yma mae'r rhan fwyaf ohonom un ai yn anfon e-bost neu neges destun i deulu neu ffrindiau, i bedwar ban byd. Nid oes angen papur na phensil na stamp na'i daro yn y blwch post, ond nid felly oedd hi hanner cant, cant neu gant a hanner o flynyddoedd yn ôl. Roedd anfon llythyr i'r teulu, ffrindiau neu ar fusnes yn holl bwysig yn y cyfnod yma. Rwyf yn cofio anfon cerdyn post o Glynllifon tra oeddwn yno gyda'r ysgol am wythnos, y tro cyntaf i mi fod oddi cartref ar ben fy hun. Roedd yn bwysig anfon nodyn adref i ddweud wrth y teulu sut oedd yr wythnos yn datblygu pan ar fy ngwyliau yn yr Alban gyda'm ffrindiau, neu anfon cyfarchion i'r teulu tra oeddem dramor gyda fy rhieni yng ngwlad Pwyl. Mae hanes y blwch post yn un diddorol. Cyn i flychau post ddod i'r amlwg ar ochor y ffyrdd, roedd gan y person oedd am anfon y llythyr ddau ddewis, un ai mynd a'r llythyr i'r 'Receiving house', math o lythyrdy cynnar, neu ddisgwyl i'r 'Bell Man' ddod heibio i gasglu llythyrau. Roedd y dyn yma yn gwisgo iwnifform ac yn canu cloch wrth fynd heibio. Ond yn 1850 roedd Anthony Trollope, sydd yn fwy adnabyddus fel nofelydd, yn gweithio fel 'Surveyor's clerk' i'r Post, ac fel rhan o'i swydd roedd yn rhaid iddo drafaelio ar y cyfandir. Dyma le sylwodd ar flychau post wedi eu gosod ar ochr y ffyrdd yn Ffrainc a Gwlad Belg.

Anthony Trollope

Penderfynodd gyflwyno'r math yma o beth yn y wlad hon, ac fe gytunwyd i arbrofi gyda hyn ar Ynysoedd y Sianel. Gosodwyd tri blwch

post wedi eu gwneud o haearn bwrw ar ynys Jersey. Ymhen rhai misoedd yn ddiweddarach fe benderfynwyd ehangu hyn a rhoddwyd chwe blwch arall ar Ynys Guernsey.



Blwch Post Guernsey 1853

Roedd yr arbrofion yma mor llwyddiannus fel y penderfynwyd cyflwyno'r sustem yma i weddill Prydain yn 1853. Cyfrifoldeb syrfewr lleol oedd hyn ac felly nid oedd cysondeb i'r blychau post, ond erbyn 1857 roedd twll y blwch wedi ei sefydlu yn un llorwedd (horizontal) gyda phen y blwch yn gordo ychydig tros geg y blwch. Coch oedd y lliw a ddefnyddiwyd ar Ynys Jersey ond fe ddefnyddiwyd gwyrdd hefyd o 1859 ymlaen. Roedd yn rhaid diddymu'r lliw yma oherwydd bod y cyhoedd yn cwyno ei fod yn anodd cael hyd i'r blychau yn erbyn y gwrychoedd gwyrdd yn y wlad. Gwnaed mwy o arbrofion gyda'r lliw brown ond roedd yn rhaid rhoi côt ychwanegol o farnais ar y rhain ac felly roeddynt yn ddrytach i'w cynhyrchu. Yn y diwedd fe benderfynwyd ar liw coch, 'pillar box red', fel mae'n cael ei adnabod hyd heddiw, yn y flwyddyn 1874, ac fe gymerodd ddeng mlynedd i gwblhau'r gwaith o ail liwio'r holl flychau post oedd mewn bodolaeth. Yn y tridegaw o'r ganrif

ddiwethaf fe arbrofwyd gyda lliw glas i flychau awyr bost, ond fe wnaed i ffwrdd a'r lliw yma hefyd erbyn 1938, a defnyddiwyd coch unwaith eto. Ar ôl y Gemau Olympaidd yn 2012 fe newidiwyd rhai o'r blychau yn lliw aur i ddathlu buddugoliaeth rhai o'r cystadleuwyr. Yn 1859 roedd swyddfa'r post wedi penderfynu fod yna ormod o wahanol fathau o flychau post, ac felly penderfynwyd safoni holl flychau'r post. Nid oedd hyn yn plesio pawb ac yn 1862 penderfynodd arolygwr dosbarth Lerpwl ar ddyluniad ei hun. Mae'r dyluniad yma yn awr yn cael ei adnabod fel y 'Liverpool Special' ond ni pharodd hyn yn hir chwaith, ac yn 1866 daeth blwch safonol i fodolaeth. Newidiwyd hwn eto yn 1879 a dyma'r siâp rydym ni yn ei adnabod heddiw mwy na lai.



Blwch Post Adwy'r Nant, Siôr VI 1936-52

Yn ystod teyrnasiad y Frenhines Elizabeth II mae nifer o siapiau eraill wedi ymddangos, rhai wedi eu gosod ar bolyn ac eraill mewn wal, a rhai mewn siopau.



Blwch Post Bryn Bella Siôr VI 1936-52



Blwch Post Elizabeth II

Ym Methesda mae sawl un i'w weld, ond y rhai hynaf yr wyf i wedi dod ar draws yw'r un yn Adwyr Nant, a'r llall wrth groesffordd Bryn Bella. Mae'r ddau yma yn dyddio o oes Siôr VI (1936-52). Os ydych yn gwybod am un yn dyddio yn ôl yn bellach na hyn, gadewch i mi wybod.

Straeon

Eich papur bro CHI ydi *Llais Ogwan*! Os oes gennych stori yr hoffech iddo ymddangos yn y *Llais*, cofiwch ei anfon i'ch gohebydd lleol erbyn y terfyn amser!!

Cofiwch bod ôl-rifynnau o'r *Llais* ar gael ar wefan y papur: www.llaisogwan.com

Beth sy'n mynd ymlaen yn y Dyffryn

DYDDIADUR BOREAU COFFI 2016

Mawrth

19 Mawrth – Cefnfaes - Cronfa Goffa Tracey Smith.

Ebrill

09 Ebrill – Cefnfaes – Plaid Lafur.

09 Ebrill – Caffi Coed y Brenin - NSPCC

16 Ebrill – Cefnfaes – Capel Jerusalem.

23 Ebrill – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.

30 Ebrill – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir

Mai

07 Mai – Cefnfaes – Neuadd Talgai.

14 Mai – Cefnfaes - Cymorth Cristnogol

21 Mai – Cefnfaes – Gorffwysfan

28 Mai – Caffi Coed y Brenin – Clwb Peldroed Mynydd Llandygai

Mehefin

26 – Mehefin Neuadd Ogwen – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Gorffennaf

09 Gorffennaf – Caffi Coed y Brenin - NSPCC

Medi

24 Medi – Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracey Smith

Hydref

22 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.

29 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir

Tachwedd

12 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin - NSPCC

19 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.

26 Tachwedd – Cefnfaes - Plaid Cymru

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis.

Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

YN EISIAU - GWIRFODDOLWYR!

Mae **Neuadd Ogwen** angen mwy o wirfoddolwyr i helpu yn ystod ein digwyddiadau.

Eich neuadd chi yw hon!

Am ragor o wybodaeth: Cysylltwch ag Owain ar 01248 208 485 neu 07442 532 746 owain@neuaddogwen.com neu gyrrwch neges drwy dudalen **Facebook** y Neuadd

Marchnad Ogwen

Ebrill 9fed

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30 pm

Ebrill 20fed

Neuadd Ogwen, 5pm - 8pm

Mai 14eg

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Mehefin 11eg

Sioe Dyffryn Ogwen

Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

RHAG-HYSBYSIAD SÊL PEN BWRDD

yn

Neuadd Ogwen

neu LLYS DAFYDD

Bore Sadwrn

30 Ebrill

£5 y bwrdd

Rhagor o wybodaeth:

01248 602509 – 01248 600872

Canolfan Cefnfaes

4 BORE COFFI

Mis Ebrill

9 Ebrill - Plaid Lafur

16 Ebrill - Cymdeithas Jerusalem

23 Ebrill - Eisteddfod Gadeiriol

Dyffryn Ogwen

30 Ebrill -

Eglwys Sant Cedol Pentir

10:00 – 12:00

Mynediad £1.00

CANOLFAN
BETHESDA

GYRFA

CHWIST

22 a 29 Mawrth

12 a 26 Ebrill

am 7:00 o'r

gloch

CROESO I

BAWB

CAFFI
COED Y BRENIN

BORE COFFI
NSPCC

9 Ebrill

10:00 – 12:00

Mynediad £1.00

CROESO I BAWB

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



Dyddiadur Digwyddiadau 1963-1968

1963

- 05/1963: Charles, yr injan gyntaf a brynodd Chwarel y Penrhyn (yn 1882) gan gwmni Hunslet (Leeds) yn cael ei throsglwyddo i Gastell y Penrhyn i gael ei harddangos yno'n barhaol.
- 04/10/1963: Cyfarfod cyntaf y Gymdeithas Ddiwylliadol. Dr John Gwilym Jones yn darlithio ar 'Y Ddrama Heddiw'.
- 07/10/1963: Daeth y gwasanaeth cario nwyddau i ben a chaewyd rheilffordd a gorsaf Bethesda yn gyfan gwbl.
- 09/10/1963: Agor estyniad newydd i Ysgol Dyffryn Ogwen. Dadorchuddiwyd coflech yng nghyntedd yr ysgol gan yr Athro Idris Foster.
- Prynwyd Linda a Blanche, dwy injan o Chwarel y Penrhyn, gan Gwmni Rheilffordd Ffestiniog.

1964/1965

- Pentre bach Tyn-y-Maes – tua deunaw o dai – yn diflannu er mwyn adeiladu motel.

1965

- Agor y Clinig newydd ym Methesda gan Goronwy Roberts, A.S., ar safle hen Ysgol Glanogwen.
- Agor ffatri Austin Taylor yn y Gerddi Mawr, ger Caerberllan a Phontŵr.
- Agor yr Eglwys Babyddol (ar y Lôn Bost).
- Marw Syr Ifor Williams ym Mhontllyfni.
- Codwyd cledrau'r lein bach o Chwarel y Penrhyn i lawr i'r Cei ym Mangor.
- Cyfarfod cyntaf Clwb Methodig Bethesda a'r Cylch.

1966

- 1/11/1966: Eisteddfod Dyffryn Ogwen: Cynnal cystadleuaeth

Cadair yr Ifanc am y tro cyntaf erioed. Model o Gadair a thocyn llyfr gwerth 10/6 i'r enillydd. Gorsedd y Beirdd Ysgol Dyffryn Ogwen a'r Ddawns Flodau yng ngofal Ysgol Tregarth.

1967

- 11/04/1967: Yr Ysgol Feithrin yn dechrau yng Nghapel Jerusalem, Bethesda.
- 27/09/1967: Marw David Richard Roberts. Cadwai Siop Tangraig, Stryd Fawr, Bethesda, ac ef oedd un o'r rhai a oedd y tu cefn i gyhoeddi tywyslyfrau Bethesda yn y 1930au.
- Cau Ysbyty Chwarel y Penrhyn.
- Sefydlu Clwb Colomennod Dyffryn Ogwen.

1968

- 01/1968: Y Postfeistr Cyffredinol yn gwrthod cais y Cyngor i roi'r enw Cymraeg ar y Swyddfa Bost.
- Y Cyngor Dinesig yn derbyn pris J. Kenneth Hughes o £600 am dynnu i lawr bedwar o dai Stryd Fawr, Bethesda, sef Rhifau 2, 4, 6 ac 8. £335 oedd y tendr isaf a dderbyniwyd a £1350 oedd yr uchaf.
- 03-04/1968: Ffurfio Cangen Merched y Wawr yn Llanllechid.
- 30/05/1968: Agor Garej Chevron gan Gadeirydd y Cyngor Dinesig, y Cynghorydd Geoffrey Davies (Douglas Arms Hotel). Y tenantiaid newydd: Mr a Mrs Meirion Jones a Mr a Mrs Cledwyn Jones.
- Pryder ynghylch stad newydd Bro Syr Ifor (a gostiodd £20,000 i'w hadeiladu). Naw o dai yn dal heb denantiaid. Rhent y 59 tŷ ar y stad yn amrywio o £4.10s i £5.18s yr wythnos.
- 04/09/1968: Cynrychiolaeth o Gyngor Dinesig Bethesda yn ymweld â'r Swyddfa Gymreig i drafod dyfodol Chwarel Pantdreiniog.
- 16/09/1968: Y Cyngor yn penderfynu gwario £100,000 ar gynllun i lenwi twll Chwarel Pantdreiniog. £5,250, i'w ad-dalu dros gyfnod o 30 mlynedd, fydd y gost i'r trethdalwyr lleol; telir y gweddill gyda grant o 85% gan y Swyddfa Gymreig. Disgwylir adennill dros 20 erw o dir ar ôl gwthio'r tomennydd yn ôl i'r twll.
- 18/09/1968: Sloganau wedi eu paentio ar furiau Ysgol Dyffryn Ogwen: 'Llywodraeth nid Tywysog' / 'Cymru am Byth', etc.
- 11/1968: Bethesda'n cefnogi cais Bangor i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r cylch.

© Dr J. Elwyn Hughes

I'w barhau

Siân Gwenllian

Ymgeisydd Etholiad Cymru
5 Mai 2016

siangwenllian@yahoo.com
01286 672510
07775 642202
f SianGwenllianArfon
t @siangwenfelin



Llais newydd i ARFON
Llais cryf i'r Gogledd

Hyrwyddwyd gan: Dafydd Meurig, Isfryn, Llanllechid, Gwynedd, LL57 3LB ar ran: Siân Gwenllian, Awelfryn, Pen y Bryn, Y Felinheli, LL56 4YQ.



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant. Cyngori, gosod a thorri wigiau Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr Ysglodion pren i'r ardd Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgwymerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan Gwyn a Christine

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle Prisiau rhesymol Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS



Malinda Hayward
(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo - trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati *(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*

Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill. Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS



Paentiwr
Papurwr
Teilsiw'r

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045	Cludiant am ddim yn lleol	Mynytho 01758 730768
Caernarfon 01286 676070	Stoc helaeth ac amrywiol	LLanrwst 01492 640794
Llangefni 01248 751677	Croeso i gyfrifon masnachol	Siop yn 01492 640794
	Staff cyfeillgar a phroffesiynol	Llanrwst
	Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y	

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Ymgwymerwr adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

argael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher 6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena Fitzpatrick - 01248 602416 neu galwch heibio'r dosbarth

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.

Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

BYSUS
D. J. Owens
RHWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhlwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

M.O.T. argael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda

☎ 601031

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

SIOP OGWEN 01248 208 485

Cardiau, CD'S, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVD's, Golwg, Llyfrau, Llundiau

A llawer mwy! Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhwng ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth. 33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)

partneriaeth@ogwen.org

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Amlwch (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475

www.owenswales.co.uk



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
E-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Y BWTHYN TE

pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF
BWTHYN A ADLADWYD AR
WAELODION LUNYR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 130c. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSALA
GOLYGFYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 5pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SODN NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN + YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286) 872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



SESIYNAU SIARAD I DDYSGWYR

11.00 - 12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 - 12.00, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's.

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad,
cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein

© 07743373895 ☎ Ogwen.Physical.Rehab@gmail

Chwilio am ofod swyddfa/siop ar
Stryd Fawr Bethesda?
Gofod Siop, Swyddfa neu Weithdy
yn awr ar gael.

Ystafell gyfarfod Swyddfa Ogwen
Ar gael i'w llogi yn awr
telerau cymunedol ffafriol.

Ymholiadau - 01248 602131
partneriaeth@ogwen.org

I hysbysebu yn y Llais neu i dynnu
sylw at eich gweithgareddau yn yr
ardal, gan gynnwys
Dyddiadur y Dyffryn,
cysylltwch â'r
Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853



Alun Fred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym
Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunfred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Chwaraeon

Rygbi

Yn dilyn y tywydd glawog diweddar a’r gemau rhyngwladol cafodd y tîm rygbi lleol gyfnod digon anodd. Er hynny, yn dilyn y record ddiguro ar Ddôl Ddafydd mae Bethesda wedi codi i’r pedwerydd safle yn Adran 1 Gogledd. Dyma hanes dwy o’r gemau cynghrair diweddar.

Bethesda 10 - Caernarfon 5

Enillodd Bethesda yn y gwynt a’r glaw ar Ddôl Ddafydd o 10 pwynt i 5 yn erbyn Caernarfon.

Rhaid llongyfarch y ddau dîm am arddangos sgiliau trafod pêl yn y ffasiwn dywydd.

Cyfartal oedd pethau yn yr hanner cyntaf - methodd y ddau dîm gyda chiciau cosb ar y cae gwlyb a cholodd Caernarfon y cyfle i fanteisio ar y gwynt o’u cefnau. Y sgôr ar yr hanner oedd 0 - 0. Blaenwyr Bethesda gafodd y gorau o’r ail hanner a threuliodd y tîm cartref y rhan fwyaf o’r ail gyfnod yn nhir yr ymwelwyr. Yn dilyn nifer o ymosodiadau dyfarnwyd sgrym 5 i Fethesda wedi 15 munud o’r hanner. Cododd yr Wythwr Rhys Williams y bêl o fôn y sgrym a phlymiodd drosodd am unig gais Bethesda. Ciciodd y cefnwr ifanc, Daniel Pritchard y trosiad anodd i roi 7 bwynt o flaenoriaeth i’r tîm cartref.

5 munud yn ddiweddarach yn erbyn llif y chwarae, llwyddodd asgellwr Caernarfon, Dylan Gwyn i osgoi nifer o dactlwr i sgorio cais unigol ardderchog. Aflwyddiannus oedd yr ymgais i drosi ond roedd Caernarfon yn ôl o fewn 2 bwynt i sgôr Bethesda.

Llwyddodd y pwysau gan flaenwyr Bethesda i orfodi Caernarfon i ildio cic gosb a chiciodd Pritchard yn gywir unwaith eto gan ail-agor y bwlch i 5 pwynt.

Ymdrechodd olwyr Caernarfon yn galed i geisio dwyn y canlyniad ond doedd hi ddim yn ddiwrnod i redeg y bêl ac roedd amddiffynwyr Bethesda’n ddigon da i’w hatal.

Bethesda 40 - Abergele 17

Dyma dymor cyntaf Abergele erioed yn Adran 1 ac maen nhw wedi cael tymor llwyddiannus iawn hyd yn hyn.

Fodd bynnag, Bethesda aeth ar y blaen ar ôl 5 munud o’r gêm wrth i’r prop Lee Sherlock groesi am gais a drosyd gan Daniel Pritchard. Ymhen rhai munudau roedd y sgôr yn gyfartal yn dilyn cais gan Gareth Beech a throsiad Owain Davies. Ychwanegodd Davies gôl gosb i roi Abergele ar y blaen hanner ffordd drwy’r cyfnod cyntaf.

Cyn yr egwyl dyfarnwyd 2 gic gosb i Fethesda a chiciodd Pritchard yddwy i wneud y sgôr yn 13 pwynt i 10 i’r tîm cartref.

Ychwanegodd Pritchard gôl gosb arall yn gynnar yn yr ail hanner cyn i’r ail reng, Huw Williams sgorio cais i Fethesda tra roedd y mewnwr Jared Mitchell yn y gell callio.

Parhau i chwarae’n drefnus wnaeth Abergele a chroesodd y cefnwr Ritchie Williams am gais haeddiannol a drosyd gan Davies.

Gyda dim ond 5 pwynt rhwng y timau sbardunwyd Bethesda i ymdrechu’n galetach a sgoriodd y canolwr Jon Armstrong gais ar ôl 21 munud o’r hanner. 3 munud yn ddiweddarach sgoriodd Bethesda gais y gêm. Cychwynnwyd y symudiad gan Llion Lloyd yn ei hanner ei hun ac roedd Gwion Emlyn wrth law i barhau’r symudiad.

Trafodwyd y bêl gan Dylan Hughes ac Alwyn Roberts cyn i Jared Mitchell sgorio yn y gornel. Ciciodd Pritchard y trosiad anodd i wneud y sgôr yn 33 pwynt i 17.

Er bod y gêm wedi llithro o’u gafael parhau i ymdrechu wnaeth Abergele ond roedd y tîm cartref yn amddiffyn yn drefnus iawn.

Gyda’r gêm yn dirwyn i ben gwelwyd symudiad da arall gan Fethesda. Symudwyd y bêl o’r chwith i’r dde ac roedd pas gelfydd y prop Gethin Owen i’r asgellwr Alwyn Roberts yn un i’w thrysori. Sgoriodd Roberts yn y gornel ond ciciodd Pritchard y trosiad unwaith eto i selio’r fuddugoliaeth.

Prif sgoriwr y clwb efo 53 pwynt ydi’r asgellwr Daniel Pritchard o Rhiwas. Mae’n edrych yn debyg bod Daniel wedi ateb un o broblemau mawr y clwb yn y tymhorau diweddaraf – diffyg ciciwr llwyddiannus.

Hon oedd gêm olaf Jared Mitchell cyn iddo adael am ei gartref yn Seland Newydd. Dymunwn yn dda i Jared a diolchwn iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i’r clwb. Bydd croeso iddo ddychwelyd yma unrhyw amser.



Elena yn hollti tri o flociau adeiladu!

Wu Shu Kwan, Kung Fu

Llongyfarchiadau i Elena Fitzpatrick, 44 mlwydd oed, o Fethesda, ar gwblhau ei “3rd Degree Black Belt” yn ddiweddar. Er mwyn cyrraedd y lefel yma bu raid i Elena basio 34 arholiad cyn cael yr hawl i deithio i Lundain i gael hyfforddiant a’i graddio gan y “Grandmaster C K Chang, 8th Degree”. Ar ddiwrnod y graddio bu rhaid i Elena arddangos cyfres o symudiadau ymladd ac amddiffyn, sef “Forms”. Ar ddiwedd y diwrnod bu raid i Elena roi ergyd i docyn o deils tō hefo’i dwrn, cicio coed oedd yn 3 modfedd o drwch a hollti tri o flociau adeiladu. Dyma’r pŵer a ddysgir drwy Wu Shu Kwan yn dilyn blynyddoedd o hyfforddiant. Ni ddylid ceisio gwneud y math yma o beth heb gael hyfforddiant mewn dosbarth. Mae Elena wedi bod yn derbyn hyfforddiant dros gyfnod o 25 mlynedd. Mae Wu Shu Kwan wedi chwarae rhan bwysig yn ei bywyd gan mai yno y bu iddi gyfarfod a’i gŵr, Jake, (“4th Degree Black Belt”). Mae ganddynt ddau o blant, Jade (“1st Degree Black Belt”) a James sydd hefyd yn gwneud hyfforddiant am “Black Belt”. Mae Elena bellach yn Hyfforddwraig Hŷn sydd newydd gychwyn dosbarth yn Neuadd Ogwen, Bethesda, ar nos Fercher o 6.30 – 8.30. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01248 602416 neu ewch ar wefan www.wushukwan.com

Bowlio

Bydd gemau bowlio yn dechrau ar yr 2il Ebrill pan fydd y tîm Sadwrn yn ymweld â Llanfairpwll. Yn ôl y capten Ioan Critchlow, y nod eleni fydd sefydlu ein hunain yn yr ail adran ar ôl brwydro’n galed i gyrraedd y fan honno llynedd. Bydd y lawnt ar agor ar benwythnos y Pasg a bydd cyfle i ymarfer cyn y gêm gyntaf. Bydd cynghrair prynhawn Mawrth yn dechrau ar 19eg Ebrill pan fydd Tîm A yn ymweld â Cricieth a Tîm B yn croesawu Dinas i Lôn Newydd. Ni ddaeth rhestr y gemau cynghrair Llun a Mercher i law eto. Daeth newyddion trist i’r aelodau ddiwedd Chwefror ar farwolaeth Merfyn Lewis, un o aelodau cyntaf y clwb ar ôl ei ail sefydlu yn 1982. Roedd yn hynod o boblogaidd ac yn aelod dibynadwy dros ben. Mae ein cydymdeimlad gyda Glenys a’r teulu cyfan yn eu colled